# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 338

Ebrill 2011

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


## Y Morglawdd

O dan y môr a'i donnau mae llawer dinas dlos.

Draw draw draw dros y gorwel...... mae'r llong fwyaf a welwyd yn y Bae erioed.

Llong sydd wedi teithio'r holl fordd o Norwy. Dros nos mae i'w gweld fel ynys llawn hud a lledrith sy'n olau i gyd; y gwir amdani yw ei bod hi'n llawn o gerrig anferth a dim arall. Dim criw, dim ond cerrig. Yn ystod y dydd ar bob penllanw mae cwch llai o'r enw 'Charlie Rock' yn cario rhai tunelli o'r cwch anferth i'r lan. Yn glos wrth ei hymyl mae 'Afon Goch', cwch bach, bach o Sir Fôn. Y tyg yma sy'n arwain ac yn tynnu'r llwyth. Wedi iddi gyrraedd y traeth mae yna sioe yn aros i'r trigolion. Cânt weld gyrrwr Jac Codi Baw ar fwrdd 'Charlie Rock' yn dadlwytho'r creigiau fel mellten felen oherwydd ychydig oriau sydd ganddo bob ochr i'r penllanw; sôn am 'advanced driving'! Mae ei '3 point turns' yn rhyfeddol ac yn werth taith arbennig gan bob un o ddarllenwyr y Tincer! Dewch yn llu â'ch binocs i brofi peth o hanes yr hen, hen arfordir.





Enillwyr lleol unawd blwyddyn 1-2: 1af Arwen Exley; 2il Sian James; cydradd 3ydd: Olivia Blesovsky a Megan Evans. Llun: Arvid Parry-Jones

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977
ISSN 0963-925X | Rhif 338 | Ebrill 2011

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG


## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England, Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


## DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD **MAI 5** a **MAI 6** I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI **MAI 19**

**EBRILL 20** Nos Fercher Rihyrsal Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion yng Nghapel y Garn am 7.00

**EBRILL 23** Bore Sadwrn Gweithdy'r Pasg yn Neuadd Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch rhwng 10.00-12.00

**EBRILL 31** Nos Iau Darlith 'Iolo Morgannwg' gan yr Athro Geraint Jenkins yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre am 7.30. Mynediad - £2; aelodau Treftadaeth Llandre am ddim.

**MAI 4** Nos Fercher Rihyrsal Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion yng Nghapel Seion, Stryd y Popty am 7.00

**MAI 5** Dydd Iau Etholiadau'r Cynulliad a Refferendwm

**MAI 8** Dydd Sul Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion yn Seion, Stryd y Popty am 10.00 a 5.30. Arweinydd: Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth

**MAI 11** Nos Fercher Ymarfer ar gyfer Dechrau Canu, Dechrau Canmol yng Nghapel y Garn am 7.00

**MAI 15-21** Wythnos Cymorth Cristnogol

**MAI 22** Nos Sul Cwmni'r Morlan yn perfformio 'Byd yr Aderyn Bach' yng Nghapel y Garn.

**MAI 23** Dydd Llun Arad Goch mewn cydweithrediad â BBC Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cyflwyno Penbobi hapus! yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth am 10.00 (Cymraeg) a 12.30 (Saesneg)

**MAI 23** Nos Lun Dechrau Canu, Dechrau Canmol yn cael ei recordio yng Nghapel y Garn am 7.00

**MAI 30 — MEHEFIN 4** Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Abertawe a'r Fro

**GORFFENNAF 13** Nos Fercher Cyfarfod blynyddol y Tincer yn festri Noddfa, Bow Street.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Rhagfyr.**

**Dyma enillwyr Cyfeillion y Tincer fis Mawrth :**
£25 (Rhif110) Jane Jenkins, Y Garage, Penrhyn-coch
£15 (Rhif116) Jane Jones, 107 Maes Ceinion, Waunfawr
£10 (Rhif254) Iwan Davies, 6 Maes-y-Garn, Bow Street

Tynnwyd gan y Trysorydd a Mrs Lena Davies yn y plygu 16 Mawrth
Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion y Tincer 2010 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

**Y Tincer ar dâp - Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

## CYMDEITHAS AREDIG A PHLYGU GOGLEDD CEREDIGION

Dathlodd Cymdeithas Aredig a Phlygu Gogledd Ceredigion hanner can mlynedd ei bodolaeth gyda chystadleuaeth ym Mhencaerau, Llanilar ar Fawrth 10fed pan fu 30 aradwr o bob rhan o Gymru yn cystadlu.

Mae'r Gymdeithas yn apelio am unrhyw luniau sydd ar gael o'u cystadleuaeth gyntaf a gynhaliwyd ar gaeau Maesbangor, Capel Bangor ym 1961. Cynhaliwyd cystadlaethau 1962 a 1963 hefyd yn yr ardal - ar fferm Llwyngronw. Os oes gan unrhyw un luniau o'r digwyddiadau yma gellir cysylltu â'r Cadeirydd, Glyn Davies, d/o Pant Drain, Penrhyn-coch, SY23 3EY. Yn ddiddorol roedd saith o gystadleuwyr 1961 yn bresennol yn nghystadleuaeth 2011.

## Cronfa Eleri 2010

Cyhoeddwyd y rownd ddiweddaraf o grantiau gan Cronfa Eleri. Eleni, roedd cyfanswm y ceisiadau dros £48,000 — gyda'r arian a oedd ar gael i Bwyllgor y Gronfa gan Gwmni Amgen yn £15,590. Tasg anodd oedd o flaen Pwyllgor y Gronfa felly. Cymeradwywyd awgrymiadau Y Pwyllgor gan Gwmni Amgen i gefnogi 13 o'r ceisiadau. Y rhai a fu'n llwyddiannus eleni oedd: Clocswyr Ceulan; Clwb Hoci Bow Street; Capel y Garn; Cylch Ti a Fi Tal-y-bont; Treftadaeth Llandre; Ysgol Llangynfelyn; Cylch Ti a Fi Llandre; Clwb Cŵl Penrhyn-coch; Cylch Meithrin Y Borth; Cae'r Odyn Galch, Tal-y-bont; Henoed Bow Street; Cyngor Plwyfol Bont-goch Elerch; Eglwys Eglwys-fach.

Ers sefydlu'r Gronfa yn 1998, i ddosbarthu arian sy'n deillio o elw fferm wynt Cwmni Amgen yn Mynydd Gorddu, rhoddwyd dros £156,000 i gefnogi achosion a mudiadau lleol. Am ragor o wybodaeth a hanes Y Gronfa gellir ymweld â gwefan Cronfa Eleri ar www.cronfaeleri.com

## Arwain Eisteddfod

Bu Tomos Dafydd, Bow Street a Gwion Llŷr, Llandre yn rhan o griw Fforwm Ieuenctid yr Urdd fu yn cymryd eu tro i arwain Eisteddfod Ranbarthol Uwchradd yr Urdd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid dydd Gwener 1 Ebrill.

## Cynlluniau Newydd Cludiant Cymunedol Ceredigion

**Bws Bro Aberystwyth**

Cychwynodd dau gynllun galw-am-siwrnau ar ddydd Gŵyl Ddewi eleni. Lleolir un o amgylch Aberystwyth, a'r llall yn ardal Tregaron, a gwirfoddolwyr o Grŵp Trafnidiaeth Cymunedol Ystwyth sy'n gweithredu'r cynlluniau.

Mae Bws Bro Aberystwyth yn gweithredu am dri diwrnod yr wythnos o 9.00 tan 12.00 o'r gloch, bob dydd Mawrth, dydd Mercher a dydd Gwener. Mae'r gwasanaeth ar gael i bobl sy'n byw o fewn pedair milltir i Aberystwyth. Mae'n rhaid i'r defnyddwyr fwcio sedd o leiaf ddiwrnod cyn teithio, a gallant gadw lle i fyny at wythnos cyn teithio. Mae'r bws yn eu casglu o'u stepen drws, a gallant deithio i unrhyw un o'r pentrefi o fewn y dalgylch neu i Aberystwyth. Mae pentrefi Clarach, Wallog, Bow Street, Capel Seion, Capel Dewi a Llanfarian o fewn dalgylch Bws Bro Aberystwyth. Gellir casglu teithwyr o Benparcau, Southgate, Trefechan, Llanbadarn Fawr, Waun-fawr ac o'r maes parcio ar Heol y Baddon, lle mae caban Shopmobility. Gall teithwyr fynd o'u cartrefi i un o'r pentrefi ar y dalgylch, neu i'r Meddygfeydd, Ysbyty Bron-glais, y siopau neu wasanaethau eraill yn y dref.

Mae'r gwasanaeth yma i bobl sydd sy'n methu defnyddio'r gwasanaethau cyhoeddus oherwydd problemau symudedd a/neu ynysu cefn gwlad. Mae Bws Bro Aberystwyth yn gweithredu o dan Drwydded Adran 19, a rhaid i deithwyr gofrestru gyda Grŵp Trafnidiaeth Cymunedol Ystwyth.

Cysylltwch â Mavis Birch ar 0845 020 4322 rhwng 9.00 and 12.00 ganol dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ar ôl cofrestru gyda Grŵp Trafnidiaeth Cymunedol Ystwyth, gall teithwyr fwcio lle ar y bws hyd at wythnos ymlaen llaw neu y diwrnod cyn teithio. Mae angen bod yn hyblyg ynghylch amserau gan bod rhaid trefnu pryd a lle i gasglu pobl o fewn yr amserlen. Gall pob bws gymryd dwy gadair olwyn, ac mae grisiau isel i fewn ar yr ochr.



## Casgliadau Gwastraff o'r Tŷ ar Ŵyl y Banc

Ni chaiff gwastraff tŷ ei gasglu ar ddydd Gwener 22 Ebrill (Dydd Gwener y Groglith). Yn hytrach gwneir y casgliadau ar ddydd Sadwrn 23 Ebrill. Bydd y casgliadau yn ystod pob Gŵyl Banc arall yn ystod mis Ebrill a mis Mai (gan gynnwys Gwyliau Cyhoeddus y Briodas Frenhinol) yn parhau yn unol â'ch amserlen casglu gwastraff.

## Ger-y-lli

Llongyfarchiadau i Gôr Ger-y-lli am ennill yn Eisteddfod Penrhyn-coch. Byddant i'w clywed ar y radio dydd Mercher 27 Ebrill. Fel rhan o fis cerddoriaeth ar Radio Cymru bydd côr y dydd yn cael sylw ar y donfedd am yr wythnos 25-29 Ebrill. Bydd y corau i'w clywed yn y nos ar raglen Eleri Sion ac yn ystod y dydd chwaraeir portread neu ddau o aelodau'r cor.

# 30 Mlynedd 'Nôl



*Côr Plant Ysgol Gynradd Penrhyn-coch gyda Mr R.T. Evans, prifathro a Mrs Euros (Elizabeth) Evans. Bu'r plant yn canu yn y Neuadd Fawr ac yng Nghapel y Tabernacl, Aberystwyth, yn ddiweddar. (o Dincer Ebrill 1981)*



*Plant Cymdeithas Lenyddol y Borth fu'n cymryd rhan mewn cyngerdd ar noson o Gawl a Chân yn Festri'r Gerlan yn ddiweddar. Llun: Bill Evans (o Dincer Ebrill 1981)*

## "Fi yw'r newid"

Bydd arddangosfa o waith celf Eifion Andreas Sven-Mayer, gwirfoddolwr Platform2 http://www.myplatform2.com/ yn Arad Goch, Stryd y Baddon, Aberystwyth o 3 hyd 23 Mai. Mae PLATFORM2 yn raglen newydd sbon sy'n rhoi cyfle i ieuenctid 18-25 oed i fyw, gweithio a dysgu am fywyd mewn gwledydd sy'n datblygu yn cynnwys Ghana, De Affrica, India a Peru. Bydd ffilmiau CtrlAltShift Cymorth Cristnogol hefyd yn cael eu dangos. Bydd wythnos Cymorth Cristnogol eleni Mai 15-21.

# Dwy Daith Gerdded: Taith y Crynwyr a Thaith Mari Jones

Mae Pwyllgor Taith Dewi Sant wedi penderfynu trefnu dwy daith gerdded a fydd o ddidordeb i bawb sydd yn ymddiddori yn hanes Cristnogol Cymru. Byddant yn digwydd yn ystod misoedd Mai a Mehefin ac estynnir croeso cynnes i bawb.

Wele'r manylion isod:

**Taith 1**

**Dydd Sadwrn, 7fed Mai 2011: Taith y Crynwyr yn Nolgellau**

Pwrpas y daith hon fydd dysgu am hanes y Crynwyr yn ardal Dolgellau a chael cyfle yr un pryd i fwynhau prydferthwch ardal Meirionnydd. Rhoddwyd sylw i'r daith hon yn ystod y gyfres 'Y Daith' ar S4C yn ddiweddar, ac mae Miss Catherine James o Ddolgellau (a welwyd yn arwain y daith ar y teledu) wedi cytuno i'n harwain. Hyd y daith fydd oddeutu 7-8 milltir ac er y bydd yn weddol hamddenol ni fydd yn addas i berson sy'n cael anhawster cerdded. Byddwn yn mynd ar hyd llwybrau cyhoeddus ac fe fydd y daith yn cymryd rhyw 4-5 awr. Bydd angen esgidiau cryfion a dillad glaw, yn ogystal â phecyn bwyd a diod.

Pe bai diddordeb gan rai i ddod ar y daith ond am fynd mewn car (yn hytrach na cherdded) fe fydd hi'n bosib i 5 car ar y mwyaf fynd ar hyd y lonydd. Yn naturiol bydd gwaith disgwyl am y cerddwyr wrth fynd o fan i fan ond os oes gennych ddiddordeb, ac yn teimlo na fedrwch gerdded cymaint â 7-8 milltir, bydd modd i chi ymuno â'r daith fel hyn. Bydd y daith hon yn cychwyn ac yn diweddu y tu allan i Ddolgellau.

Os hoffech ymuno â ni ar y daith, cysylltwch â'r Parchedig Judith Morris ar 01970 820939 neu drwy e-bost: berwynfa@btinternet.com cyn gynted ag y bo modd.

**Taith 2**

**Taith Mari Jones: Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, 3ydd a 4ydd o Fehefin 2011**

Pwrpas y daith hon yw cofio am ymdrech aruthrol Mari Jones yn teithio o Lanfihangel-y-Pennant i'r Bala i brynu copi o'r Beibl gan Thomas Charles. Hyd y daith, a fydd yn digwydd dros ddau ddiwrnod, yw 28 milltir ac felly ar gyfer cerddwyr profiadol yn unig y mae'n addas. Rydym yn hynod falch bod Mr John Leeding o Rehoboth, Taliesin sy'n gerddwr profiadol, wedi cytuno i arwain y daith. Bydd y rhan fwyaf o'r daith dros dir mynyddig ond byddwn hefyd yn dilyn y ffordd fawr o bryd i'w gilydd. Byddwn yn trefnu llety ar gyfer y nos Wener ond nid yw'r lleoliad eto wedi'i gadarnhau. Cynhelir cyfarfod yn weddol fuan i drefnu hyn ac i drafod hyd y daith. Fe fydd yn bosib hefyd ymuno â'r daith am un o'r diwrnodau yn unig.

Os hoffech ymuno â'r daith hon neu am gael sgwrs amdani, cysylltwch â Mr John Leeding ar 01970 832672 neu drwy e-bost: glannant@googlemail.com.

# Y BORTH

## Dymuno'n dda

Ar ôl adferiad iechyd yn y Flwyddyn Newydd, siom i Glynne Evans, Moorlands, a'r teulu oedd clywed bod posibilrwydd y gallai wynebu llawdriniaeth. Ond, gyda dyfodiad y Gwanwyn, cafwyd y newyddion da na fyddai hynny'n reidrwydd, er bod mynychu clinig yn yr ysbyty'n angenrheidiol y misoedd nesa'.

Wrth ddymuno'n dda iddo, rydym yn cydlawenhau ag ef, ac Elizabeth, wedi i Jonathan a'r teulu lwyddo i ymweld wedi i'r gwaethaf o'r rhew a'r eira gilio. Roedd yn gyfle i gwrdd am y tro cynta' â'r diweddaraf o'r wyrion, Daniel, a hynny'n gystal tonig ag y gallai unrhyw feddyg ei gynnig i Glynne.

Hwb arall i'r galon oedd ymweliad Nansi a Des Hayes (Dunstall, gynt) â'u hen ffrindiau yn Moorlands pan oedden nhw ar eu ffordd i'r Clwb Golff, yn wahoddedigion Cinio'r Gymdeithas Gymraeg ym mis Mawrth. Bydd hir gofio tymor diwyd Nansi ac Elizabeth yn ohebwyr '*Y Tincer*' yn y pentre.

## Cerddorion ifanc

Wedi holl brysurdeb Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd, bu nifer o gerddorion ifanc yr ardal wrthi'n ddiwyd yn ymarfer ar gyfer cyngerdd Band Chwyth a Cherddorfa Iau, a Band Pres Ieuenctid a Chôr Canolradd y sir, a gynhaliwyd yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth, nos Fawrth, Ebrill 5ed.

Yn eu plith roedd Megan Clift, Station House, Teras y Cambrian, a oedd wedi llwyr fwynhau'r gwaith corawl o dan arweiniad Emyr Wynne Jones. Yn wyneb y toriadau yng nghyllid addysg gerddorol Cymru rhaid edmygu ei waith ef, a dyfalbarhad yr athrawon cerdd teithiol sy'n paratoi'r bandiau a'r cerddorfeydd ieuenctid mor raenus: Geraint Evans, Pen y Môr, Ffordd y Fulfran, yn eu plith.

## Newyddion da...

Newyddion da iawn oedd clywed fod Gwyneth Edwards, Gwarallt, Gwastad, yn llawer iawn gwell. Cafodd Gwyneth godwm cas adeg oerfel mawr y gaeaf, a thorri'r gwregys pelfig. Yn dilyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais a chyfnod hir yn aros yn amyneddgar i'r asgwrn weu yn ei ôl, mae Gwyneth yn teimlo'n llawer gwell, er bod yn rhaid iddi dychwelyd eto i'r ysbyty y mis hwn i gael sganio'r esgyrn.
Mae'n ein hatgoffa mor bwysig yw cael ysbyty gerllaw.


## ...a theimladau cymysg

Serch hynny, o gael iechyd, gyda theimladau cymysg y gobeithiai Gwyneth, a'i phriod

# Gwyliau bach yn Y Borth

Merch lan y môr ydw i. Mi ges fy magu yn Ffynnongroyw, pentref ar arfordir Gogledd Ddwyrain Cymru, cyn symud i Brestatyn ac yna i "Sunny Rhyl" yn fy arddegau. Mae atgofion y dyddiau hynny yn euraid, yn haf o hyd, yn hufen iâ ac yn Ambre Solaire, heli yn y ffroenau a chri gwylanod yn gloc larwm.

Bellach, dwi'n byw yn y wlad, mewn pentref bach ( os pentref hefyd) ym Mro Morgannwg. Mae fy ngŵr, sy'n enedigol o Lanafan, yn fachgen cefn gwlad ac mae caeau a chloddiau wedi bod yn rhan annatod o'i fagwraeth o. Ond môr oedd fy nghaeau i a'r tonnau oedd y "sietinne" ac er mor ddedwydd fy myd, dwi bob amser yn teimlo mod i'n dod adre pan glywaf a gwelaf y môr.



A diolch byth mae dau o fy ffrindiau agosaf wedi setlo yn y "Beach Hut" mwyaf moethus welais erioed a hynny ar y traeth yn Y Borth. Dwi wedi sôn ar raglen Daf a fi ar Radio Cymru droeon mod i'n dod i'r pentref hwn o dro i dro i aros gyda gyda nhw ac mae pob arhosiad, hyd yn oed os ydi o am un noson yn unig, gyfwerth â mis o wyliau. Mae Y Borth yn feicrocosm o drefi gwyliau — siopau "rubber rings", 99s, fish & chips, promenade, B&Bs — ac eto mae iddo'r wedd fohemaidd, artistic hefyd gyda'i siopau crefftau chwaethus a'i artistiaid niferus. A pha ryfedd bod cymaint o greadigrwydd yn perthyn i gynifer o drigolion Y Borth gyda Môr Iwerddon yn geflen i fywyd bob dydd yma?

Mae eistedd ar y dec yn Ynyswen yn sipian diod ddiddorol(!) yn heulwen yr Haf, neu'n clebran wrth i'r haul fachlud yn ddramatic wedi'n lapio mewn carthenni yn yfed mygiau o de poeth yn drît amheuthun. Rhoi'r byd yn ei le i rythm hypnotic y tonnau a fel arfer mae'r byd hwnnw yn lle gwell ar ôl sesiwn o drafod a hel atgofion.

Amser gwely a'r llanw yn ein siglo i drwmgwsg bodlon cyn i'r gwylanod ddod ar ddyletswydd i'n croesawu nôl i ddiwrnod arall.

'Dach chi'n lwcus iawn, bois bach, yn byw mewn lle mor hudolus a phob tro yr af nôl i Fro Morgannwg ar ôl hoe fach yn Ynyswen, dwi'n mynd ag ychydig o'r Borth yn ôl gyda fi ac yn ei sgîl, talp o blentynod a'r cofion melysaf.

Caryl Parry Jones

# DOLAU

Ifor, fynychu gwasanaeth yng nghapel y Gerlan nos Iau, Ebrill 14eg, i nodi cau Eglwys Annibynnol y Morfa.

Bu Gwyneth a'i chwaer-yng-nghyfraith y ddiweddar Tegwen Edwards gyda'r ffyddlonaf o aelodau'r achos, yno ar bob tywydd, ac wedyn yn y Gerlan wedi'r uno â'r Eglwys Bresbyteraidd. Ym mhob 'te yn y festri', eu cacennau hwy oedd ymhlith y mwyaf poblogaidd — yn enwedig y cacs bach coconýt !





## Dathlu Gŵyl Ddewi yn yr Alban

Eleni, am y tro cyntaf erioed fe ddathlwyd Dydd Gŵyl Ddewi ym mhentref Carrbridge, Sir Inverness yn ucheldir yr Alban, yng ngwesty Craigellachie. Gweler http://www.craigellachiehouse.co.uk/ Paratowyd y cinio gan Shân (gynt Shân Rees Davies o'r Borth) a Terry Dudleston - cawl, caws Caerffili, bara ffres, tarten afalau a hufen a paned i orffen. Mi 'roedd pob un o'r gwesteion - Albanwyr a Saeson i gyd - wedi mwynhau y bwyd dros ben ac yn gofyn am rysêt y cawl a ble 'roedd cael prynu'r caws! Addurnwyd y tŷ â blodau cennin Pedr, lluniau o'r Ddraig Goch, y llun "Salem", copiau o'r *Tincer* a bwydlenni dwy-ieithog. Chwaraewyd cryno-ddisg o gorau meibion Treforus a Pontarddulais i hybu'r awyrgylch Cymreig ac yn dop ar bopeth mi 'roedd Shân mewn gwisg draddodiadol!
Codwyd £240 at elusennau Urdd Eglwys yr Alban, a pawb am wneud yr un peth Dydd Gŵyl Ddewi y flwyddyn nesaf!

At hyn, pleser arbennig bob amser oedd croesawu eu brawd-yng-nghyfraith annwyl, 'O. T.' i'r pulpud, yn y Morfa cyn cau'r capel, a'r Gerlan wedyn, yn ystod blynyddoedd y cyd-addoli yno. Yn amlach na heb, adeg yr ymweliadau hyn byddai ei briod ymhlith y gynulleidfa werthfawrogol (Wenna yn chwaer i Tegwen, a'u brodyr Ifor ac Owen). Atgof disglair yw'r gwasanaethau hyfryd hynny erbyn hyn, a phregethu gwych o'r calibr y byddai 'O.T.' bob amser yn llwyddo i'w gynhyrchu.

Er y mawr gwyno fu ar *Caneuon Ffydd* am nifer o resymau, mae wedi trysori i ni un o emynau mawr y Pasg, sydd hefyd yn arddangos holl fawredd y Parchedig O. T. Evans fel emynydd praff. Coffa da amdano, a bydd ein meddyliau gyda'r teulu ffyddlon hwn ar adeg drist yn hanes y pentref.

Gresyn i'r achos ddod i ben, ond arhosed bendith Duw ar holl deuluoedd cred:


'Arglwydd bywyd, tyred atom,
gobaith holl dylwythau'r llawr,
yn dy wanwyn gwena arnom,
rho i'n llwydni degwch gwawr;
tyred, Arglwydd,
ti yw'r atgyfodiad mawr...'

O. T. Evans (1916-2004). *Caneuon Ffydd*, Rhif 551

## Llongyfarchiadau!

Croeso mawr i Gari Raggett, babi newydd sbon Rhiain a Heath, Golwg y Môr (a Chigydd Bow St.). Mae Gari yn frawd bach newydd i Moana,Celyn a Morus.







## Eisteddfodwyr brwd

Mae tymor yr Eisteddfodau yn ei anterth ac y mae Glesni a Teleri yn cael cryn hwyl wrth fynd o steddfod i steddfod. Yn Abergynolwyn yn ddiweddar cafodd y ddwy ohonynt gryn lwyddiant gyda Teleri yn cael 1af a Glesni yn cael 3ydd. Ers hynny buont yn brysur yn Steddfodau yr Urdd a Phenrhyn-coch.

## Cyfrol o'r wasg

Llongfyarchiadau i Huw Williams, Sŵn yr Awel, ar gyhoeddi llyfr gyda'r wasg, Palgrave MacMillan. Teitl y gwaith yw *On Rawls, Development and Global Justice: the Freedom of Peoples.* Ynddo mae Huw yn trafod dyletswyddau moesol gwledydd cyfoethog i bobloedd anghenus y byd - yng nghyswllt syniadau'r athronydd, John Rawls. Dyma ei gyhoeddiad academaidd cyntaf, a dymunwn pob llwyddiant iddo yn y dyfodol. Gwelir erthygl ganddo ar t.17

## Gwellhad buan

Gwellhad buan i Mrs Mabel Rees, Talardeg, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Bronglais.

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Peter Leggett ar gael ei benodi yn Bennaeth Cynorthwyol Ysgol Craig yr Wylfa, y Borth. Roedd Peter hefyd yn aelod o Cywair - y côr enillodd cystadleuaeth Côr Cymru 2011.

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

## Pen blwyddi arbennig!

Llongyfarchiadau a phen blwydd hapus iawn i Aneurin Morgan, y Byngalo, a Mercia Railson, Maesawelon y ddau yn dathlu pen blwydd arbennig iawn yn ystod mis Ebrill.

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Paul a Norma Stephens, Blaenddol, ar farwolaeth tad Norma ddechrau mis Mawrth.

## Brysiwch wella

Treuliodd Richard Davies, Troedrhiwceir, rai dyddiau yn yr Ysbyty y mis yma eto, gobeithio y bydd y droed yn gwella yn llwyr yn fuan.

## Urdd y Benywod

Cynhaliwyd ein pwyllgor blynyddol yng Nghanolfan Nant yr Arian. Cawsom bryd hyfryd o fwyd wedi ei baratoi gan Staff y Ganolfan ac yna cyflwynodd Mair Stanleigh ein gŵr gwadd sef cyn ddisgybl iddi o ddyddiau Coleg Addysg Bellach sef David Lloyd. Mae David wedi ysgrifennu llyfr o'i atgofion o'i blentyndod yn Aberystwyth (*Tales of an Aber lad* Y Lolfa) ac mae ei ail lyfr ar fin dod o'r wasg. Cyn ymddeol i ardal Aberystwyth bu yn gweithio ym myd teledu a chawsom lawer o hanesion difyr iawn ganddo am ei waith drwy y blynyddoedd. Diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan Jenny Hall ein llywydd am y flwyddyn nesaf. Cyflwynodd Carol Marshall, ein trysoryddes, siec o £100 i brosiect Haul yng Nghanolfan y Celfyddydau. Prosiect yw hwn sydd yn rhoi cyfle i blant o dan anfantais i gael profiad ym myd celf. Cyflwynwyd siec o £50 hefyd i Ellie Doidge, Cae Gynon, sydd wrthi ar hyn o bryd yn casglu arian i fynd i weithio gyda plant yn Affrica trwy'r elusen "Thrive Africa" yn ystod gwyliau yr haf.

# LLANDRE

## Cerddor ifanc

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Seren Powell-Taylor, Troed-y-bryn, sydd yn ddisgybl yn Ysgol Gynradd Tal-y-bont fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Abertawe a'r Fro ar y gystadleuaeth unawd chwythbrennau blwyddyn 6 ac iau.

## Cydymdeimlad

Ddydd Iau 17 Mawrth bu farw Mrs Gladys Jones, Bron Berllan, yn Ysbyty Bron-glais yn 98 mlwydd oed; gwraig ddiymhongar a fu'n ffyddlon iawn i achosion lleol.. Cynhaliwyd ei hangladd dan ofal ei Gweinidog ddydd Gwener, 25 Mawrth, a chydymdeimlir â'r teulu a'i ffrindiau.

## Treftadaeth Llandre

Bydd cyfarfod nesaf Treftadaeth Lladnre ar Ebrill 28 yn Ysgoldy Bethlehem am 7.30 pan ddaw Helen Palmer i ddweud — Beth sy'n newydd yn yr Archifdy Sirol?

## Ennill ysgoloriaeth

Llongyfarchiadau i Gwion Llŷr, Tremedd, ar ennill un o brif ysgoloriaethau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## Sefydliad y Merched Genau'r-glyn

Ar ddechrau'r flwyddyn newydd cynhaliwyd pwyllgor i drefnu ein rhaglen am y flwyddyn 2011. Ar Ionawr 12fed trefnwyd noson i Ganolfan y Celfyddydau i gael pryd o fwyd cyn ymweld â'r pantomeim Cinderella. Yn ein cyfarfod mis Chwefror cawson noson o ioga ysgafn yng ngofal Lesley Wheatley. Mwynhaodd nifer fawr o'r aelodau oedd yn bresennol y noson. Ar ddiwedd mis Chwefror cawsom wahoddiad i Dwmpath Dawns yng ngofal Sefydliad y Merched y Borth. Cafwyd pryd da o gawl, tarten afal a hufen, te a chacennau cri wedi eu paratoi gan yr aelodau. Diweddodd y noson gan wared ein swper wrth ddawnsio. Cawsom hwyl fawr o ddawnsio o dan ofal Mr Erwyd Howells a'r organydd. Dathlwyd diwrnod Gŵyl Ddewi ar Fawrth 2il ym Methlehem gyda byr bryd Cymreig. Cafwyd adloniant gan ddwy aelod o'r gangen yn canu caneuon digri, sef Hazel a Margaret ac arddangosfa o osod blodau gan aelod arall, Rose.

## Priodas

Llongyfarchiadau i James ac Amy, Sunmead, Lôn Glanfred ar eu priodas, yn Eglwys Mihangel Sant Aberystwyth ar yr 2il o Ebrill. Pob lwc i'r dyfodol.

## Llyfr Newydd

Mae llyfr diweddaraf Randall Enoch wedi ei chyhoeddi. Teitl y gyfrol yw Llanfihangel Genau'r Glyn : The History of a Community, ac mae'n cyflwyno hanes Llandre a'r cyffiniau o'r dyddiau cynharaf hyd heddiw. Pris y gyfrol yw £9.50 a bydd elw o werthiant y llyfr yn mynd tuag at Treftadaeth Llandre. Gellir prynu copïau gan Roger Haggar - ffôn: 01970 820314 neu gan Randall Enoch ffon : 01970 828328

## Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd

Yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn y cynhaliwyd y cyfarfod uchod eleni ar brynhawn dydd Gwener, Mawrth 4ydd gyda'r Garn a Noddfa yn uno.

Y rhai a gymerodd ran oedd:
**Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn**
Mrs Glenys Evans, Mrs Joy Evans, Mrs Helen Jones, Mrs Sue Jones, Mrs Hazel Pitt, Mrs Averil Thomas, Mrs Margery Gill, Mrs Angela Wise.

**Capel y Garn**
Mrs Ann Jones, Mrs Shân Hayward, Mrs Meinir Lawry, Mrs Meinir Roberts, Miss Kathleen Lewis, Mrs Mary Thomas, Mrs Elen Evans, Mrs Llinos Dafis, Mrs Tegwen Pryse.

**Capel Noddfa**
Mrs Mair Lewis, Mrs Beryl Bowen, Mrs Eryl Ifans, Mrs Diana Jones. Mrs Susan Jenkins oedd wrth yr organ.

Chwiorydd yr eglwys fu'n casglu a chasglwyd £39.00 tuag at waith y Mudiad a llenyddiaeth Gristnogol a £4.50 o'r eglwys tuag at gludiad y rhaglenni.

Mrs Lona Jones, Penrhyn-coch draddododd yr anerchiad ar y thema "Pa sawl torth sydd gennych". Gwragedd Cristnogol Chile baratôdd y daflen. Thema addas iawn gan eu bod yn bwyta bara yn ystod pob pryd bwyd. Cyfieithwyd y daflen ar ein rhan gan Mrs Nan Lewis, Peniel, Caerfyrddin.

Addurnwyd yr eglwys gyda ffrwythau a blodau a pharatowyd basgedaid o frechdanau gan Mrs Glenys Evans a'i rhoi ar y bwrdd gyda lliain drostynt, yna eu rhannu gyda chwpanaid o de ar ddiwedd yr oedfa a chyfeillachu.

Gwlad debyg i Gymru yw Chile mewn llawer ystyr gydag arfordir hyfryd, mynyddoedd, llawer o adnoddau naturiol - copr, aur ac arian, - pysgod, amaethyddiaeth, coedwigaeth a thwristiaeth yn brif ffynhonnell incwm.

Roedd Cymru a hyd yn oed Ceredigion wedi gallu uniaethu â'r mwynwyr a fu'n gaeth yn nyfnder daear yng ngwaith copr ac aur San Jose cyn y Nadolig.

Gweddi, ffydd a chanu clychau'r eglwys a wnaeth pobl Chile, fel y Cymry gynt gweddi a chanu emyn arbennig i'r sefyllfa Emyn 736 *Caneuon Ffydd* gwaith Dafydd William (1721-94) pan lifodd dŵr i bwll glo'r Tŷ Newydd, Y Rhondda.

Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau
nid oes neb a ddeil fy mhen
ond fy annwyl Briod Iesu
a fu farw ar y pren.
Cyfaill yw yn afon angau,
ddeil fy mhen i uwch y don;
golwg arno wna im ganu
yn yr afon ddofon hon.

# Hola o Batagonia!



Lois y tu allan i hen orsaf y Gaiman - lleoliad yr Amgueddfa

Gyrhaeddais i Batagonia ychydig dros dair wythnos nôl, ond mae'n teimlo fel tipyn hirach a dweud y gwir. Dwi wedi profi cymaint o groeso a chyfeillgarwch ers cyrraedd, nes 'mod i wedi teimlo'n gartrefol iawn yma o'r cychwyn cyntaf. Yn y Gaiman dwi'n byw, ond hefyd yn gweithio yn Nhrelew, Dolavon a Phorth Madryn — a dechreuais i ar y gwaith yn syth bin.

Ddeuddydd ar ôl i fi gyrraedd y Gaiman, cyrhaeddodd bws llawn pobl o'r Unol Daleithiau i glywed Tegai Roberts yn rhoi sgwrs ar hanes y Wladfa yng Nghapel Bethel. Er mai'r bwriad o'dd eistedd yn y cefn yn gwrando, ges i 'ngalw i ddarllen Salm 23 yn Gymraeg, cyn rhoi cyflwyniad byr iddyn nhw o 'ngwaith gyda Menter Patagonia, ac ateb eu cwestiynau!

Dwi wedi ymaelodi â Chôr y Gaiman, a bydda i'n cystadlu gyda nhw yn Eisteddfod Trevelin ddiwedd Ebrill. Bydda i hefyd yn beirniadu'r adrodd a'r dawnsio gwerin — 'Cawl a Chân' Ysgol Rhydypennau yw'r unig brofiad sy gen i o ddawnsio gwerin!

Dwi'n cynnal gwersi yn ystod yr wythnos, a fy swydd i yw chwarae gyda'r plant trwy gyfrwng y Gymraeg — gwych! Bob prynhawn Llun dwi'n cynnal cylch chwarae yn Nolavon, ac yn Ysgol yr Hendre, Trelew ar brynhawn Gwener. Mae gen i ddau ddosbarth ôl-feithrin (5-10 oed) — un yn y Gaiman ac un yn Nhrelew. Dwi'n mynd i Ysgol Feithrin y Gaiman bob prynhawn Mercher i ddarllen stori i'r tri dosbarth, ac yn dysgu rhieni rhai o'r plant hynny ar brynhawn Gwener. Cefais i brofiad rhyfedd un diwrnod pan gerddais i mewn i'r Ysgol Feithrin a chlywed cd 'Rala-la-la' — ugain mlynedd ar ôl i fi a'm ffrindiau yn nosbarthiadau B ac C Ysgol Rhydypennau ei recordio yng Nghapel y Garn!


Lois gydag aelodau Clwb y Gaiman


Cynog Dafis, Fabio Gonzalez, Llinos Dafis a Lois; rhes flaen: y ddwy chwaer Luned Gonzalez a Tegai Roberts

Ro'dd Cynog a Llinos Dafis, a Gareth a Gina Miles yn ymweld â Phatagonia fis diwethaf, a chytunodd Cynog Dafis a Gareth Miles i roi sgwrs yn Salon Cultural Gaiman — y naill ar ddatganoli yng Nghymru, a'r llall ar fywyd llenor. A'r prynhawn canlynol, siaradodd Llinos Dafis yn Ysgol Camwy ar ei gyrfa hi ynghlwm wrth ddwyieithrwydd yng Nghymru. Ro'dd hi'n wych ca'l croesawu dau o Bow Street, a chawson ni amser braf iawn yn eu cwmni.

Dwi wedi dechrau 'Clwb' yn y Gaiman bob nos Wener, er mwyn i'r bobl ifanc gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bwyta amryw o gacennau a gwylio'r ffilm 'Separado' wnaethon ni'r tro cynta, a daeth pawb â thri pheth sy'n eu disgrifio nhw i'r ail gyfarfod er mwyn i ni ddod i adnabod ein gilydd yn well. Ro'dd yr eitemau'n amrywio o sbatiwla, ffon hoci, cactws, jam llaeth (dulce de leche), clustog, ffôn, cerddoriaeth a bagiau te. Fi ddaeth â'r bagiau te — yr holl ffordd o Gymru!

Cafodd Ffair Amaethyddol ei chynnal yn y Gaiman benwythnos cyntaf Ebrill, a daeth ymwelwyr o Drelew, Rawson, Porth Madryn ac Esquel i brynu a gwerthu cynnyrch cartref. Heblaw crwydro'r stondinau a blasu rhai o'r cynnyrch, bues i'n gweini yn Nhe Cymreig y côr, ac yn cynorthwyo ar stondin yr Ysgol Feithrin.

Roedd y penwythnos hwnnw hefyd yn benwythnos diolchgarwch, a threfnais i Gwrdd Diolchgarwch Capel Bethel. Profiad rhyfedd oedd sôn am y cynhaeaf gyda'r haul yn tywynnu'n gynnes braf y tu allan! Ond ro'dd hi'n braf iawn cwrdd i addoli gyda'n gilydd yn Gymraeg, yn enwedig gan mai prin yw'r oedfaon Cymraeg sy'n cael eu cynnal yma erbyn hyn.

Felly dyna bigion o'r hyn dwi wedi bod yn ei wneud yma. Ma'r prysurdeb yn golygu nad ydw i wedi llwyddo i ga'l un siesta hyd yn hyn — ond ma' wyth mis i fynd!

**Lois Dafydd**

**Gellir dilyn Lois yn y Gaiman drwy ei blog http://loisdafydd.blogspot.com/**


# CLWB CŴL

**Penrhyn-coch**

**CLWB AR ÔL YSGOL**

**Ar Agor Llun-Gwener o**
**3.30 y.p - 5.30 y.p.**
**£6 y sesiwn £5 ail blentyn**
**Sesiynau wrth yr awr ar gael**

**Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig**
**Gofal Plant Cofrestredig**

**CLWB GWYLIAU**

**Mae'r clwb hefyd ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol a diwrnodau HMS**
**08.30 y.b. – 5.30 y.p.**

**£20 y diwrnod plentyn cyntaf**
**£18 y diwrnod ail plentyn**

**Sesiwn hanner diwrnod**
**08.30 – 1.00 y.p. neu 1.00 y.p. – 5.30 y.p.**

**£10 plentyn cyntaf . £9 ail plentyn**

**www.facebook.com/pages/Clwb-Cwl-Penrhyn-coch-After-School-Club/235577369148?ref=ts**

**I fwcio cysylltwch â**
**Delyth James neu Katy Nash ar**
**07972 315392**
**clwbcwl@googlemail.com**
**Neu cipiwch mewn i'r clwb ar ôl Ysgol**

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

### Adref eto

Rydym yn falch fod Mrs Sally Evans, Tywynfa, adref o'r ysbyty ac yn teimlo yn well.

Dymunwn Basg hapus i bob un nad ydynt yn teimlo yn dda, ac yn gaeth i'w cartrefi. Gobeithio y byddwch yn well yn fuan.

### Ffarwel

Dymunwn pob dymuniad da a hapusrwydd i Mrs Siân Spink, 1 Cefnmelindwr, sy'n ein gadael ar ddiwedd mis Ebrill. Mae hi a'i gŵr yn symud i ardal Maenceinion, ble mae y plant wedi ymgartrefu. Colled i'r gymuned yw colli Siân, mae wedi bod yn weithgar iawn am flynyddoedd mewn llawer maes. Aelod gwerthfawr o bwyllgor y neuadd, ac athrawes ysgol Sul, dim ond i enwi rhai o'i cyfrifoldebau.

Bydd Megan, Dafydd a Huw yn hapus siwr iawn, ond trist ydym ni yma ym Mhen-llwyn. Cofia Siân byddwn yn falch dy weld di a John yn ôl yn ymweld unrhyw amser. Pob hwyl a diolch am bopeth.

### Perfformiad canmoliaethus

Cafwyd adolygiadau canmoliaethus yn ddiweddar i berfformiad Jenny Livsey fel Nelly yn y cynhyrchiad Wuthering Heights yng Nghanolfan y Celfyddydau.

### Pob lwc i'n pêl-droediwr

Mae Rhydian Davies, Ceunant, yn dal i lwyddo ym myd pêl-droed. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae wedi chwarae i dîm Birmingham, yn erbyn academi Lerpwl, Manchester United, Caerdydd a Peterborough. Mae yn sgorio yn gyson ac yn mwynhau y profiad yn fawr iawn.

Mae Rhydian newydd glywed y bydd yn derbyn ei gap am chwarae dros Gymru yn erbyn gwlad Pŵyl ddechrau mis Mai, mewn seremoni yng Nghaerdydd. Mae yn edrych ymlaen yn fawr, ac estynnwn ninnau ddarllenwyr y *Tincer* longyfarchiadau a phob dymuniad da iddo ym myd pêl-droed yn y dyfodol. Rydym yn falch ohonot Rhydian, dal ati!




# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Angharad ac Andrew Rowlands, Talar Deg ar enedigaeth merch, Elen Siwan — chwaer i Aneurin a Martha; wyres i Aldwyth a Tegwyn Lewis, Rhos-goch, a gor-wyres i Mrs Nan Hughes, Gelliwynebwen.

### Pob lwc

Pob lwc i Siân Evans, Llain y Felin ar ddechrau yn yr ysgol feithrin.

### Gyrwyr newydd

Llongyfarchiadau i Siân Evans, Y Fronfraith, a Rhys Wallace, Troedrhiw, am basio prawf gyrru.

### Llefaru cerdd Gerallt

Mae cerdd a gyfansoddwyd gan Gerallt Hywel ac a enillodd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Bae Caerdydd 2009 yn cael ei defnyddio fel darn ar gyfer cystadleuaeth parti llefaru eleni. Cyhoeddwyd y gerdd - Cleisiau - yng Nghyfansoddiadau Eisteddfod 2009 ac yn ôl Gerallt : "Roeddwn i wedi cael sioc a dweud y gwir a dwi heb glywed y gerdd yn cael ei llefaru eto ond yn gobeithio mynd i'r Eisteddfod i wrando ar y partïon yn ei dweud hi."

"Fe gyfansoddes i'r gerdd pan oedd Obama wedi cael ei ethol ac roedd meddwl am y cleisiau roedd y bobl dduon wedi eu dioddef yn y caeau wedi dod i fy meddwl. Meddylies i amdanyn nhw yn gweithio'n galed a dim gobaith dianc ond nawr bod yna ddyn du o'r un tras â nhw yn bennaeth ar y Tŷ Gwyn lle gynt y bydden nhw'n edrych ar dai mawr gwyn eu meistri. Dydw i ddim yn ysgrifennu barddoniaeth; mae Taid (D.J. Jones, Llanbedrog) wedi ennill yr englyn yn y Genedlaethol a dwi wedi bod mewn ambell wers gynganeddu ond heb sticio ati mae arna i ofn!"

Pob dymuniad da i barti llefaru Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Abertawe. Bydd y gystadleuaeth ar y llwyfan am 11.20 fore Iau.


GWELY A BRECWAST MAIR
9 Heol Llangrallo, Pen-y-Bont ar Ogwr CF31 3AR
Croeso cynnes Cymreig mewn lleoliad delfrydol i ganolfanau siopa gorau de Cymru, Canolfan y Mileniwn, Stadiwm y Mileniwm a Cae Pêl-droed Caerdydd.
www.mairsbedandbreakfast.co.uk
e-bost : mairbandb@hotmail.com
01656 655442
07768 286303
Cysylltwch â Huw a Sarah Tudur

Gofal Traed Aber
Ceiropodydd / Podiatrydd cofrestredig H.P.C.
Triniaeth ar ewinedd a chyrn
Llawdriniaeth ar gasewinedd
Triniaeth / asesiad arbenigol ar draed diabetig
Gwadnau ac asesiad biomecanyddol
TRINIAETH YN Y CARTREF AR GAEL
Cysylltwch gyda Shân Jones neu Richard Ellison ar 01970 617269 am apwyntiad

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt.
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch
Gwrthtaith Fibrophos a rhai organig
Ymgymymerir â phob math o waith amaethyddol am brisiau cystadleuol
Loriau a pheirianau amaethyddol i'w llogi
01970 820149
07980 687475


Y TINCER
ytincer@googlemail.com







Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

GWAITH GARDDIO


Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GAREJ CWRT


PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor 8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
PENRHYN-COCH ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth 820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *





Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# BOW STREET

### Suliau Ebrill – Mai

**Y Garn**
10 a 5
Gweler http://www.capelygarn.org/

*Ebrill*
24 (Pasg) Oedfa'r Ofalaeth — Y Pasg Bugail

*Mai*
1 Pryderi Llwyd Jones
8 Cymanfa Ganu — Seion, Aberystwyth
15 Oedfa Cymorth Cristnogol Gweinidog am 10.30 — cinio bara a chaws i ddilyn. Sylwer ar yr amser dechrau.
22 M. J. Morris (bore)
29 Eifion Roberts

**Noddfa**
*Ebrill*
24 Oedfaon Undebol Sul y Pasg ym Methel, Tal-y-bont am 10.00 a 2.00 Y Parchg John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin

*Mai*
8 Cymanfa Ganu — Seion, Aberystwyth

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r dyfodol i Aled Morgan a Heledd Evans, Bryncastell, ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

### Ennill camera

Llongyfarchiadau i Nia Phillips 1 Cae'r Odyn, ar gyrraedd ffeinal rhaglen Stwnsh ar S4C. ac ennill camera digidol. Da iawn ti Nia

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Carol Davies ac Eifion Evans ar enedigaeth merch ar 21 Mawrth. Bu Carol ac Eifion yn byw yn 53 Bryncastell tan y llynedd, ond maent bellach wedi ymgartrefu yn ardal Llanwnnen. Croeso mawr i Mari Gwenllian, a dymuniadau gorau i'r teulu.

### Merched y Wawr

Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni trwy fynd i weld tair ffilm fer i'r Drwm yn y Llyfrgell Genedlaethol. Daeth nifer o aelodau ynghyd a croesawyd ni yn gynnes gan ein Llywydd, Shan Hayward. Yna croesawyd ni gan Anwen o Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru. Rhoddodd fraslun inni o'r tair ffilm oeddym yn mynd i'w gweld. Y gyntaf yn sôn am y Llyfrgell ei hun ac fe'n tywyswyd drwy'r adeilad gan y newyddiadurwr Huw Edwards. Dangosodd adrannau mapiau, ffotograffau, Beibl William Morgan a Llyfr Du Caerfyrddihn, ynghyd a nifer o bethau diddorol eraill.

Roedd yr ail ffilm am briodasau yn 1911, 1921, 1937 a'r pumdegau. Dyna ichi beth oedd gwledd i'r llygad, gwisgoedd anhygoel, ac nid yn unig gan y briodferch, a'r morynion yn gwisgo hetiau!

A'r drydedd ffilm oedd 'Spotlight on Wales' sef yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nolgellau ym 1949. Y peth oedd yn taro rhywun yn syth oedd gwisgoedd y merched, 'costumes' fel roeddynt yn cael eu galw amser hynny, sef sgert a chot fach, neu ffrog efo cot a het wrth gwrs, a'r dynion yn eu siwtiau a hetiau. Cawsom fraslun o weithgaredd yr eisteddfod a'r Coroni, Diolchwyd i Anwen gan Shan a chafodd pawb becyn amrywiol i fynd adre

Ffwrdd a ni wedyn i Llety Parc i gael cawl a tharten afal ac roedd yn flasus dros ben. Noson i'w chofio!.

### Priodas

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau am y dyfodol i Anwen Jones-Steele a Mike O'Hara ar eu priodas dydd Sadwrn Ebrill 2il.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Brian ac Eirian Dafis, Rhys a Sion, 80 Bryn Castell ar farwolaeth mam Brian — Mair Davies, 2 Afallen Deg - gynt o Bonterwyd - ar Fawrth 23
ac â'r Parchg Richard H. a Mair Lewis, a Rheinallt, 40 Maes Ceiro ar farwolaeth tad Richard yn Llanfyllin ar 28 Mawrth.

**Cymdeithas Lenyddol y Garn**.

I gloi'r tymor am eleni, nos Wener, 11 Mawrth 2011 cynhaliwyd 'Cyfarfod Bach' yn ysgoldy Bethlehem, Llandre. Yn dilyn gwledd o gawl a baratowyd gan y pwyllgor, aeth y beirniad, Mr Tegwyn Jones, ati i gloriannu cyfansoddiadau niferus a dderbyniwyd i'r cystadlaethau, a mwynhawyd noson hwyliog a chartrefol.

### Cyfarchion Pen blwydd

Pen blwydd hapus i'r Parchg Richard Lewis, 40 Maes Ceiro a ddathlodd ben blwydd arbennig ar 11eg Ebrill. Bellach bydd yn defnyddio'r bws!!

### Newid aelwyd

Dymuniadau gorau i Ian a Gwen Cole a ymddeolodd ddiwedd Mawrth fel gofalwyr Capel y Garn, wedi cyfanswm o 24 o flynyddoedd o wasanaeth arbennig iawn. Bydd colled fawr ar eu hôl — nid oedd dim yn ormod i'r cwpwl hynaws hwn ac fe wnaethant gymwynasau di-rif ag aelodau'r capel dros y blynyddoedd. Rydym yn falch nad ydynt yn symud yn bell iawn — ac ymddeoliad hir a hapus iddynt yn y Marian, eu cartref newydd, sydd o fewn tafliad carreg, bron, i'w hen gartref.

### Croeso

Croeso cynnes iawn i Michael ac Amanda Roberts i'r Tŷ Capel, a phob dymuniad da iddynt fel gofalwyr newydd y Garn.

### Ymddeoliad hapus

Dymuniadau gorau i R. Iestyn Hughes, 14 Maes y Garn, ar ei ymddeoliad o Archif Sgrin a Sain y Llyfrgell Genedlaethol.

## CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 31 Mawrth o dan lywyddiaeth y Cynghorydd Owain Morgan. Ar ran y Cyngor cydymdeimlodd â'r Clerc, Y Parchg Richard Lewis, ar farwolaeth ei dad ar ddechrau'r wythnos.

Yn codi o'r cofnodion dywedwyd bod pwyllgor y Neuadd yn ymwybodol o gyflwr y toiledau, a'u bod yn dal i ddisgwyl ymateb o dan gynllun Gwaith yn y Gymuned.

Adroddwyd hefyd bod y llwybr yn ystâd Tregerddan wedi ei ddynodi yn llwybr cyhoeddus, ac er bod ymgymerwyr yn gosod tarmac ar y pafinau yn Nhregerddan yr wythnosau hyn, nid oedd y Cyngor Sir am darmacio'r llwybr hwn am ba reswm bynnag.

Hysbyswyd y Cyngor bod tri chais cynllunio am godi tai yn yr ardal wedi eu gwrthod ar hyn o bryd oherwydd problem y garthffosiaeth. Ceisiadau ydynt am anheddau ar dir Caergywydd, Bryncastell a Llys Iwan, Dolau. Y mae pwysau ar Dŵr Cymru i fynd i afael â'r broblem hon yn fuan.

Derbyniwyd gohebiaeth parthed agor gorsaf trên yn Bow Street. Mae'r asesiad wedi cyrraedd Adran C, ac ystyr hynny yw bod yr awdurdodau yn tafoli'r posibiliadau rhwng Bow Street a Charno ym Mhowys. Mae Ceredigion o blaid Bow Street yn gryf gan dybio y gallant weithredu cynllun Park and Ride i Aberystwyth. Hynny yw, pobl o'r gogledd yn gadael eu cerbydau yn Bow Street a neidio ar y trên i Aberystwyth gan rwyddhau problem parcio cerbydau yn y dref.

Penderfynwyd ymuno eleni eto ag Un Llais Cymru ar gost yr aelodaeth o £246.

Dywedwyd bod cyfarfod y noson ganlynol yn Aberystwyth i gefnogi pob ymgais i gadw Ysbyty Bron-glais yn Ysbyty Gyffredinol i'r ardaloedd cyfagos ac nid ei diraddio, fel sydd yn berygl ar hyn o bryd. Penderfynwyd ysgrifennu at Ymddiriedolaeth Hywel Dda yn datgan gofid y gymuned.

Bydd y cyfarfod nesaf ar 28 Ebrill.

**Y TINCER**
cofiwch gysylltu â ni
ytincer@googlemail.com

# PENRHYN-COCH



### Suliau

**Horeb**
*Ebrill*
24 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog

*Mai*
1 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
8 Cymanfa Ganu — Seion, Aberystwyth
15 2.30 Oedfa Cymorth Cristnogol Gweinidog Bethel yn cyd-addoli
22 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog
29 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog

**Salem**
*Ebrill*
24 Oedfaon Undebol Sul y Pasg ym Methel, Tal-y-bont am 10.00 a 2.00 Y Parchg John Gwilym Jones, Peniel, Caerfyrddin

*Mai*
1 10am Y Parchg Richard H Lewis — Cymundeb
8 Cymanfa Ganu — Seion Aberystwyth
15 5pm Y Parchg Richard H Lewis
29 2pm Y Parchg Richard H Lewis — Cymundeb

### Gwefan boblogaidd

Bu tipyn o edrych ar wefan Trefeurig dros y dyddiau diwethaf ers yr Eisteddfod. Fel arfer, ceir ar gyfartaledd 12—15 ymwelydd y dydd, ond dydd Sul 10 Ebrill cafwyd 59 o ymwelwyr a thrannoeth ar y dydd Llun 118. Dydd Sul edrychwyd ar y wefan 880 o weithiau; tudalen y corau oedd fwyaf poblogaidd, gyda 290 o ymweliadau, ac yn ail tudalen yr unawdwyr gyda 115 o ymweliadau.

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 11 a 25 Mai. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Neuadd y Penrhyn

Mae aelodau Pwyllgor Neuadd y Penrhyn yn y broses o wneud cais i'r Cynulliad am grant i osod to newydd ar y Neuadd ,yn ogystal â gwellianau mewnol ac allanol. Fel rhan o'r cais mae angen dangos fod trigolion y Plwyf yn cefnogi 'r cais. A fyddech cystal a llofnodi'r ddeiseb, sydd ar gael yn Swyddfa'r Post, Penrhyn-coch, , Garej Tymawr, neu'r Clwb Pêl-droed a Chymdeithasol Penrhyn-coch.Yn ogystal mae croeso i chi ddanfon llythyr o gefnogaeth i'r Ysgrifenyddes- Ann James, Pen-banc, Penrhyn-coch.SY23 3ER

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Dr Arwyn Edwards, Maesyrefail, ar farwolaeth sydyn ei fam yn Beulah, Castellnewydd Emlyn ganol mis Mawrth,
â John ac Yvonne Thomas a'r teulu, Nant Seilo ar farwolaeth Dai, brawd John yn Ffostrasol ganol mis Mawrth,
ac â Rheinallt Lewis, Dôl Helyg, ar farwolaeth ei daid yn Llanfyllin ar 28 Mawrth.

### Tywydd Costa Ceredigion!

Clywyd ar y teledu nos Iau 24 Mawrth fod y tymheredd a recordiwyd yng Ngogerddan yn 19 tra mai ond 12 gradd oedd hi ym Madrid!

### Gohebydd y Canolbarth

Llongyfarchiadau i Cemlyn Davies ar gael ei benodi fel gohebydd y Canolbarth i Wales Today sydd yn golygu gweithio o Aberystwyth. Bydd yn olynu Simon Pusey.



**Cylch Meithrin Trefeurig**

Oherwydd y tywydd braf yr ydym wedi gallu mynd allan o gwmpas y pentref. Dyma ni wrth yr afon Seilo. Fe fuom yn gweld yr ŵyn bach yn Fferm Pen-banc a chawsom fore yn chwarae yn y Parc. Yr ydym hefyd wedi bod yn codi arian at Ddiwrnod Trwynau Coch.

### Mrs. Mary Maria Thomas
(Mary Bronsaint)

Fe fu farw Mary yn dawel yng nghwmni ei merched, ar 25 Ionawr, yn 97 oed. Prin yw'r rhai sydd â'r hyder i drefnu eu hangladd eu hunain, ond dyna a wnaeth Mary i arbed y merched rhag gorfod gwneud yr holl drefniadau. Fe drefnodd bob manylyn, hyd yn oed ddewis yr archgludwyr a gofyn i Mrs Jean Murray roi teyrnged.
Ganwyd Mary yn Fferm Ty'ncwm, Capel Dewi, ar 17 Ebrill 1913. Ymhen blwyddyn roedd wedi symud gyda'r teulu i Bronsaint, Capel Dewi, ac fel Mary Bronsaint yr adnabyddid hi ers hynny. Mary oedd y nawfed o ddeg o blant, a hi fu fyw hiraf ohonynt i gyd. Ar ôl gadael Ysgol Penrhyn-coch yn 14 oed fe aeth, fel sawl un arall, i weini. Roedd ganddi feddwl mawr o Benrhyn-coch. Yma oedd ei chartref a'i heglwys; yma y cafodd ei bedyddio, ei derbyn yn aelod, a phriodi, ac yma hefyd y caiff ei chladdu. Ymhlith llawer o swyddi a gafodd, fe aeth i Lundain ar ddau achlysur i weithio yn y diwydiant llaeth. Y tro cyntaf aeth i weithio gyda'i chwaer a'i brodyr, ac ar ôl priodi John Samuel Raymond Thomas ym 1947 dychwelodd yno i redeg llaethdy gydag ef.
Am resymau'n ymwneud â iechyd Raymond, dychwelodd y ddau i Gymru, lle'r oedd ei chalon hi bob amser. Roedd Mary yn gyfarwydd â galar; bu farw Raymond mewn damwain fferm yn 29 oed, gan adael Mary yn weddw gyda

thri phlentyn bach — ac un ohonynt heb ei geni ar y pryd. Mae profedigaeth o'r fath yn ysigo'r goreuon, ac yn aml ni ddeuir dros y profiad, ond roedd Mary yn wydn a dewr. Er bod amseroedd yn galed ni adawodd i ddrwgdeimlad na chwerwder ei llethu ond brwydrodd ymlaen gan fod yn ffyddlon i'w phlant a rhoi magwraeth dda iddynt, a hynny ar ei phen ei hun. Roedd ei theulu'n eithriadol o bwysig iddi — ei merched, ei hwyrion a'i hwyresau a'i gorwyrion a'i gorwyresau. Pan fu farw Raymond roeddynt yn byw ym Mhantybanadl, Comins-coch ond sylweddolodd Mary fod angen cartref mwy arnynt a chafwyd eiddo yn Nhal-y-bont ac yno, yn 5 Penrhiw, y magodd ei phlant.
O'i holl swyddi, y gwaith a roddodd fwyaf o foddhad iddi oedd nyrsio. Fe ddechreuodd yn yr hen ysbyty yn Ffordd y Gogledd, Aberystwyth cyn symud i'r ysbyty newydd yn Ffordd Caradog. Nid oedd yn deall ystyr y gair ymddeol a phan ymddeolodd o'r ysbyty yn 60 oed fe barhaodd i wneud gwaith nyrsio preifat am ryw ddeng mlynedd. Roedd Mary yn gyfarwydd â gwaith caled, yn wraig fonheddig ac yn wraig a chanddi ffydd.
Cynhaliwyd yr angladd ddydd Sadwrn, 5 Chwefror, yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch pan ddaeth tyrfa o deulu a ffrindiau ynghyd i roi diolch am fywyd Mary. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Canon Stuart Bell gyda Mrs. Eirwen Hughes wrth yr organ. Yr archgludwyr oedd Sean Sedore, Shayne Sedore, Alex Roberts, Gareth Reid, Gregory Roberts (wyrion), a Mr Peter Davies (nai). Y prif alarwyr oedd Eleanor a Selwyn, Anne a Ken, Raymonda a Mike (merched a meibion yng nghyfraith); Sean, Shayne, Richelle, Gareth, Ceri, Nicole, Alex, Gregory a Rebecca (gorwyrion a gorwyresau). Methodd Mrs Enfys Roberts (chwaer yng nghyfraith) fod yn bresennol oherwydd gwaeledd.

## Diolch

Hoffai Eleanor, Anne a Raymonda ddiolch i bawb am y gefnogaeth a'r caredigrwydd a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth ddiweddar. Diolch am y cardiau, y blodau, y galwadau ffôn a'r negeseuon o gydymdeimlad; hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd i Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch a'r Gymdeithas MS. Mae diolch arbennig i wragedd Eglwys Sant Ioan am ddarparu lluniaeth ar ôl yr angladd, i'r Canon Stuart Bell am ei wasanaeth arbennig a chydymdeimladol; Mrs Jean Murray am ei theyrnged; Mrs Edwina Davies a Mr Dai Alun Jones am ddosbarthu'r taflenni; Mrs Eirwen Hughes am ganu'r organ; Mr Egryn Evans a Mr Max Jenkins (clochyddion); staff D. J. Evans, Cyfarwyddwyr Angladdau, am eu gwasanaeth urddasol a phroffesiynol, a staff Cartref Nyrsio Plas Cwmcynfelyn lle treuliodd Mary bymtheng mlynedd olaf ei bywyd.

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau 13eg o Fawrth croesawodd ein Llywydd, Glenys Morgan, bawb i'r cyfarfod. Trafodwyd y busnes arferol ac fe longyfarchodd y Llywydd y Tîm Dartiau sydd wedi mynd trwodd i'r chwaraeon yn Machynlleth ym mis Mai. Y tair aeth ymlaen oedd Eirlys Davies, Glenys Morgan a Susan Hughes. Da iawn ferched.

Aeth ein Llywydd ymlaen i groesawu ein gwraig wadd sef Marian Gray o Drefeurig a oedd wedi dod atom ar fyr rybudd oherwydd bod y wraig oedd i fod yn methu dod. Cafwyd noson ddiddorol dros ben. Bu yn siarad am ei gwaith yn gwneud homeopathi yn Aberystwyth. Mae amryw o bobl sydd yn isel eu hysbryd yn mynd ati yn rheolaidd, maent hefyd o help mawr i bobl sydd yn dod dros ryw salwch arbennig. Mae yn aml iawn yn gallu gwella pobl yn well nac unrhyw dabledi. Mae'n bopeth i wneud rhwng meddwl a'r corff sydd yn eich iachau. Mae'r homeopathiaid fel Marian yn gwneud gwaith da dros ben.
Diolchwyd i Marian yn swyddogol gan Elsie Morgan, ac yna cafodd sawl un gair a thrafod pethau dros gwpanaid o de. Tynnwyd y raffl fisol.

## Ar y teledu

Gwelwyd Lloyd Edwards ar 'Wedi Tri' yn ddiweddar yn dangos sut i wneud jams, chutneys ac yn y blaen. Mae wrth ei waith bob dydd ac yn ei amser hamdden yn prysur wneud yr holl gyffeithiau yma. Mae hefyd yn cystadlu mewn sioeau dros Gymru gyfan a gwelwyd, yn ei gartref, yr holl wobrwyon mae wedi eu hennill. Mae bellach hefyd yn beirniadu mewn sioeau ac yn mynychu pob sioe sydd ar gael. Da iawn ti Lloyd a phob llwyddiant i ti eto yn y dyfodol.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i'r canlynol i gyd sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, sef: Jamie, 15 Dolfach, a gafodd driniaeth lawfeddygol yn ddiweddar; Elen Pryse, Llys y Cwm, a fu yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar, hefyd Agnes Morgan, Cwrt Villa, a fu yn yr ysbyty.

Daliwch i wella i gyd, mae'r gwanwyn wedi dod.

## Pen blwydd arbennig

Dymunwn ben blwydd hapus iawn i Defi John Edwards, Lletyllwyd, ar ei ben blwydd yn 80eg oed ar y 18fed o Ebrill.

## Brysiwch wella

Dymunwn wellhad buan i Connie Evans, Gwawrfryn, a Mairwen Jones, Tan-y-berth - y ddwy wedi cael triniaethau yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

## Cystadlu

Llongyfarchiadau i barti deulais Uwch Adran Bro Dafydd a'u harweinydd Greg Roberts sydd drwodd i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe. Bydd y rhagbrawf fore Mercher gyda'r gystadleuaeth ar y llwyfan am 13.40.

## Pulpud Horeb

Os byddwch yn ymweld a'r Arddangosfa Pregethwyr a Phulpudau yn Amgueddfa Ceredigion (yno hyd 14 Mai) fe welwch hen bulpud Horeb ar ochr chwith y llwyfan Fe'i symudwyd yma pan gafwyd hen bulpud Jezreel, Goginan yn Horeb.

## Cyngerdd

Cynhaliwyd noson arbennig gan Gapel Horeb er mwyn codi arian at Gronfa Tirion Lewis yn Neuadd y Penrhyn nos Wener 15 Ebrill. Arweiniwyd y noson yn hwyliog iawn gan Elen Pen-cwm a chafwyd eitemau gan Gôr Meibion Aberystwyth, Sioned Exley, Sion Wyn Hurford, Gwenno Morris, Anwen Morris, Gwenno Morris, Alun John, Angharad Fychan ac Efan Williams a Greg Roberts. Y cyfeilydd oedd Eirwen Hughes, Pen-cwm. Cafodd y gynulleidfa a lanwai'r Neuadd a Tirion ei hun fwynhad arbennig , Y llywydd oedd y Parchg Peter M. Thomas a gyflwynodd araith bwrpasol a diffuant. Diolch i bawb a gyfrannodd i wneud y noson yn llwyddiant

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627


Sion Wyn Hurford a Sioned Exley

## EISTEDDFOD PENRHYN-COCH . EISTEDDFOD PENRHYN-COCH . EISTEDDFOD PENRHYN-COCH .

Cafwyd Eisteddfod wych unwaith eto - yr oedd hon yn un o'r goreuon ers llawer blwyddyn, ac fel Pwyllgor mae ein diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i'w gwneud yn eisteddfod lwyddiannus dros ben,

Y beirniaid nos Wener oedd Cerdd: Meinir Wyn Edwards, Llandre ac Enfys Hatcher, Gors-goch; Emyr Pugh-Evans oedd yn arwain a'r gyfeilyddes Heddwen Pugh-Evans, y Borth. Llywydd y noson oedd Janice Morris, Penrhyn-coch a rhoddwyd y Tlws a'r wobr ariannol gan Aaron ac Ashley Stephens, Glan Seilo.

Ein beirniaid ar y dydd Sadwrn oedd Cerdd: Helen Wyn, Brynaman a Llefaru a llenyddiaeth: Aled Gwyn, Caerdydd a'r gyfeilyddes oedd Lowri Evans, Caerdydd. Llywyddion y dydd Sadwrn oedd Alwen Fanning (prynhawn) a'r Cynghorydd Richard Owen (nos) a'r arweinyddion Emyr Pugh-Evans a Rhys Hedd, y Borth a Cemlyn Davies a Rhian Dobson, Penrhyn-coch. Canwyd cân y cadeirio gan Angharad Fychan a'r trwmpedwr oedd Efan Williams.

Mae'n diolch hefyd yn fawr i Ferched y Gegin am eu gwaith ardderchog, i deulu Reynolds a fu â gofal wrth y drws, i bawb o'r pwyllgor a weithiodd mor dda ac i bawb o'r cystadleuwyr a'r gynulleidfa a'r cyfranwyr oll a wnaeth eu rhan i gadw yr eisteddfod i fynd. Diolch hefyd i'r beirniaid i gyd am eu gwaith hwy, i'r cyfeilyddion am eu gwaith bendigedig ac am haelioni y llywyddion.

Gellir gweld y canlyniadau llawn a lluniau o'r Eisteddfod ar http://www.trefeurig.org/



Siwan Aur George, Llanilar, ddaeth yn gyntaf ar yr unawd a'r llefaru 8-10 oed. Llun: Arvid Parry-Jones



Betsan Fychan, 3 oed, Glanrafon, Penrhyn-coch a enillodd ddwy gystadleuaeth - unawd a llefaru i blant meithrin. Llun: Arvid Parry-Jones



Enillwyd y gadair gan Osian Rowlands, Llandwrog - a hynny am yr ail waith gan mai ef enillodd ddwy flynedd nôl. Mae cysylltiad lleol gan Osian - magwyd ei wraig Sioned (Hywel) yn Dolau. Roedd y gadair eleni yn rhodd er cof am eu rhieni gan Alun, Merfyn ac Islwyn Hughes, Trawsnant ynghyd a gwobr ariannol o £100. Diolch yn fawr i'r teulu am eu haelioni. Llun: Arvid Parry Jones

### 'Gwreiddiau'

Wrth dynnu'r llen ysblenydd
Daw'r wawr oer i dorri'n rhydd
A'i olau i ddatgelu
Un wlad a'i hanesion lu
A naddwyd o'r mynyddoedd;
Un hil a grewyd pan oedd
Y dydd yn rhydd fel breuddwyd
A'r nos yn dyner ei nwyd.

O enaid y pren hynaf,
Un fesen mor hen â'r haf
Ei hun, fu'n arllwys ei hud
I'n hanfon tua'r cynfyd,
Treiddia un gwreiddyn trwy'r gro,
Un genedl yn egino.

Fel hud daw'r niwl i'n cofleidio a dwyn
Y dydd i'w drawsffurfio,
Yn gyfrwys i'n cymhwyso,
Yn brawf o chwedloniaeth bro.

Cawn weld gwlad Ysbaddaden, ac Arthur
A'r gwyrthiau drwy'r niwlen,
Gwelwn Culhwch ac Olwen,
Gweld Gwythyr, Gwrhyr â gwên.

Yna trwy'r hud daw'r ddrudwen a'i nodyn
Dan adain i Nisien,
Am ormes mewn hanes hen,
A'r hyn fu'n warth ar Branwen.

Daw dau â hualau dialedd, dau
Dan don o unigedd,
A'r ddau? Lleu a Blodeuwedd,
Yn gaeth, yn welw eu gwedd.

Sawl teyrnas a wel Teyrnon, o hirbell
I Arberth daw'n ffyddlon,
Yn ei law, llanc a gwên lon,
Yr un gollodd Rhiannon.

Yna cawn hanes Taliesin, un llawn
O'r ddawn i farddoni'n
Gelfydd a'i ffydd yn hau'r ffin,
Yr un fu'n herio Heinin.

Arwyr ddoe, gwir wreiddiau hen
A'u bywyd ym mhob awen,
O'r gwyll, o ryw amser gynt,
Eneidiau oesol ydynt.

Yr oes hon ar frys o hyd
A ninnau heb un ennyd
I aros, i ystyried
Rhyddhau ein gwreiddiau a'r gred
O oleuo chwedleuon
A'n hawl i'r diriogaeth hon.

**Mistar Mostyn - Osian Rowlands**

**EISTEDDFOD PENRHYN-COCH . EISTEDDFOD PENRHYN-COCH . EISTEDDFOD PENRHYN-COCH .**



Enillwyr lleol unawd blwyddyn 1-2: 1af Arwen Exley; 2il Sian James; cydradd 3ydd: Olivia Blesovsky a Megan Evans. Llun: Arvid Parry-Jones



Enillwyr lleol - unawd dosbarth derbyn: Cerys Wyn Hurford; a llefaru dosbarth derbyn: Carys James. Llun: Arvid Parry-Jones

## Beirniadaeth

Mistar Mostyn
Cerdd gynganeddol gan fardd galluog ond sydd efallai ar ei brifiant. Trawyd ar syniad da wrth ddehongli'r testun gan fwrw ati i fawrhau cyfoeth ac etifeddiaeth iaith a chenedl. Mae'n mynd rhagddo gan ddirwyn ein stori a'n chwedl fel Cymru rhagddi drwy gyfeirio at gyfoeth ein chwedloniaeth sydd yn y pendraw yn rhan o'n gwreiddiau ni fel pobl. Mae'r darn cywydd agoriadol yn agoriad effeithiol i'r gerdd ac yn llifo'n rhwydd ac esmwyth. Mae'r gyfres englynion hefyd yn osgoi'r perygl iddyn nhw fynd yn gatalog, yn bennaf oherwydd bod y nodweddion arbennig a berthyn i'r gwahanol gymeriadau chwedlonol yn creu amrywiaeth ohonynt eu hunain. Efallai y gallai'r clo gael ei gymhwyso ychydig er mwyn ystwytho'r mynegiant, ond cerdd a chryn gamp iddi a'r syndod yw i gymaint gael ei gyfleu o fewn cwmpas mor fyr. Aled Gwyn



Y Cyng. Richard Owen, llywydd nos Sadwrn



Angharad Fychan yn canu cân y cadeirio

EISTEDDFOD PENRHYN-COCH . EISTEDDFOD PENRHYN-COCH . EISTEDDFOD PENRHYN-COCH .

# Tlws yr Ifanc - Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2011

Daeth saith ffolio o waith i law yng nghystadleuaeth Tlws yr Ifanc. Yn eu mysg, cafwyd amrywiaeth helaeth o wahanol arddulliau a chyfuniadau o leisiau ac offerynnau. Braf oedd gweld fod pob ymgeisydd wedi cyflwyno gwaith mewn fformat clir gan ddefnyddio meddalwedd cerddorol yn broffesiynol. Cyfansoddiadau lleisiol oedd y mwyafrif o'r darnau gyda nifer ohonynt yn cynnwys offerynnau amrywiol ar gyfer y cyfeiliant. 0 ystyried bod yr ymgeiswyr i gyd wedi defnyddio meddalwedd tebyg i Sibelius er mwyn cynhyrchu sgor, dim ond un cystadleuydd manteisiodd ar y cyfle o gyfrannu recordiad sain.

Pleser o'r mwyaf oedd darllen gwaith y saith ymgeisydd, a dyma ychydig o sylwadau am y ddau a ddaeth i'r brig, sef 'Stesion Strata' a 'Ryan Giggs'. Teimlais fod cyfansoddiadau'r ddau yma yn dangos nifer o rinweddau medrus, ac yn gosod eu gwaith ar lefel uwch yn y gystadleuaeth yma.

Roedd tri darn yn ffolio 'Stesion Strata', darn cerdd-dant 'Llais Pavarotti', pedwarawd llinynnol 'Hau'r Hadau' ac 'Ymdeithgan y Werin' ar gyfer chwe piano trydanol a drwm ochr. Cafwyd ymgais dda yn 'Ymdeithgan y Werin' i greu darn cyfoes gyda nifer o rinweddau cyffrous, megis newid yr arwydd amser ac amrywio'r gwead cerddorol. Yn y pedwarawd llinynnol, cafwyd ymgais dda i ddefnyddio harmonïau amrywiol. Roedd y darn cerdd-dant yn enghraifft draddodiadol a chadarn. Hoffais y syniad o arbrofi gydag offerynnau ychwanegol, ond, mae'n rhaid bod yn ofalus wrth ychwanegu offerynnau pres i'r gwead. Mae yna beryg i'r ensemble offerynnol drechu'r lleisiau. Serch hyn, dyma gerddor medrus a chreadigol.

Casgliad o ganeuon mewn arddull sioe gerdd a chafwyd gan 'Ryan Giggs'. Roedd pedwar darn yn y casgliad, ac yn eu mysg cafwyd cyfuniad medrus o leisiau unawdol, deuawdau ynghyd â gwaith cor SATB. Teimlais fod iaith harmonig y gyfrol yma yn dangos aeddfedrwydd arbennig. Un o gryfderau amlycaf 'Ryan Giggs' yw rhwyddineb y gosod ar gyfer y lleisiau a'r defnydd hyderus o offerynnau amrywiol.
Sgil y cystadleuydd yw bod y llinel lleisiol bob amser yn flaenllaw yn y gwead. Daw'r gyfrol i ddiwedd grymus gyda'r gân 'Un ydym Ni'. Uchafbwynt teilwng i gasgliad graenus.

Hoffwn longyfarch holl gystadleuwyr Tlws yr Ifanc. Roedd hi'n bleser ac yn fraint darllen eu gwaith, a gobeithio y byddant i gyd yn parhau i fireinio'u crefft yn y dyfodol. Mae gwaith addawol 'Stesion Strata' yn haeddu clod ac yn dangos dychymyg a'r gallu i arbrofi. Ond, gwaith aeddfed a medrus 'Ryan Giggs' sydd wedi dod i'r brig eleni. Y mae 'Ryan Giggs' yn deilwng o glod ac anrhydedd yr Eisteddfod, fel enillydd Tlws yr Ifanc, Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch, 2011.

Talfyriad o feirniadaeth Jane Leggett. Gellir darllen y cyfan yn http://www.trefeurig.org/



Llongyfarchiadau i enillydd Tlws yr Ifanc - Eurion Jones Williams o Cysgod y Pîn, Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan. Mae Eurion ar hyn o bryd yn fyfyriwr blwyddyn gyntaf ym Mhrifysgol Cymru , Aberystwyth yn astudio Economeg. Mae'n dweud ei fod yn ddiolchgar i'w rieni ac i athrawon Ysgol Penweddig yn enwedig yr adran gerdd am roi arweiniad a chymorth iddo. Ei brif ddiddordebau ydy chwarae cello, trombôn a phob math o chwaraeon. Fe'i gwelwyd ar fwy nag un achlysur yn ennill nifer o wobrau am gyfansoddi e.e. Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Ysgol Penweddig; Gwobr Gyntaf am gyfansoddi dan 15eg a 19eg yn Eisteddfod yr Urdd. Tra ym mlwyddyn 12, sgoriodd y marciau uchaf yn Arholiad Cerddoriaeth Cyd Bwyllgor Addysg Cymru ar draws y wlad. Llongyfarchiadau mawr iddo am ei holl orchestion.



Alwen Fanning, Llywydd pnawn Sadwrn

## Cwlwm

Ym mrig yr hwyr
mae genynnau'n gwau,
a thincial y ddawns gyfrin
yn plethu alaw newydd
ar gregyn gwynion yfory.

Daethost yng nghanol lliwiau drud yr hydref
i euro bywyd dau,
a'th wên yn wefr hyfryd
i oleuo'r bore bach.

Llaw fawr yn cwpanu un lai
yn gadwyn o gariad,
a ninnau'n gweld y gorwel yn ymestyn yn bell o'n blaenau
gyda ti.

Adeiladu cestyll tywod a chodi cregyn i'r glust
i glywed alawon aberoedd pell
yn byrlymu trwy'r dychymyg . . .

Sefyll yno'n hir a syllu,
wrth ddotio,
rhyfeddu,
a rhoi diolch amdanat.

**Gwyrth**

Gwyrth - Karina Wyn Dafis, Llanbryn-mair

## Beirniadaeth

Gwyrth
Hoffais y gerdd hon ar y darlleniad cyntaf. Mae ynddi ffresni a didwylledd ac mae'r mynegiant drwyddi yn afaelgar. Ceir paragraff agoriadol synhwyrus. Caiff llawenydd y rhieni sy'n dotio ar yr un bach ei gyflwyno'n gynnil ond nid wyf yn siÐr a yw'r 'llaw fawr yn cwpanu un lai yn gadwyn o gariad ' yn gweithio'n gwbl gredadwy.

Telyneg dwyllodrus o syml ond mae ei datblygiad yn gynnil a gafaelgar. Drwy'r delyneg ar ei hyd mae'r bardd yn amlygu'r ddawn i ddewis yr union air a'r union draw neu gywair. Mae'n disgrifio sefyllfa sydd mor hen â'r cread ond eto mae rhyw ffresni rhyfeddol yn y mynegiant. Ceir rhai trawiadau cwbl gofiadwy e.e. "a'th wên yn wefr hyfryd/i oleuo'r bore bach" a "i glywed alawon aberoedd pell/yn byrlymu drwy'r dychymyg..."

Aled Gwyn

## EISTEDDFOD PENRHYN-COCH .



Cyflwynwyd Cwpan Parhaol ar gyfer cystadleuaeth yr Her Unawd gan y teulu er cof am Mary Thomas, Bronsaint. Dyma Greg Roberts, wyr Mary Thomas yn cyflwyno'r cwpan i'r enillydd cyntaf - Efan Williams, Lledrod.

### Englyn Digri: Het

Un ddel at haul a heli — neu un ddu
At ddydd claddu Magi,
Neu un fawr, debyg i Fi,
Addas i siarad drwyddi.

**Phil Davies**

Syniad da yn cael ei drafod yn ddeheuig gan weithio yn esmwyth at yr ergydion yn y clo. Hwyrach y gallwch ymlafnio i beidio dibynnu ar yr 'n' wreiddgoll yn ormodol ond eto mae'n ymgais sy'n haeddu'r wobr lawn.



Côr Ger-y-lli



Y Tri Amigo

## TREFEURIG

### Marwolaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth Megan Thomas, Ty'n-gelli gynt, ym Mhlas Cwmcynfelyn ddydd Gwener 15 Ebrill.

### Cinio Urdd Trefeurig 1960degau

Chwith i'r dde

**Rhes gefn**

Berry Evans, Cefn-llwyd; David Evans, 2 Tregerddan, Bow Street; Terry Prescott, Trefeurig.

**Rhes ganol**

Eirlys Jones, Cemlyn, Trefeurig; Eifion Lewis, Cwmerfyn; Delyth Jones, Bronheulwen, Trefeurig; George Windsor Pugh (gwas fferm Nantybwla); Gwilym Evans, Tegfan, Trefeurig; Dilwyn Lewis, Penrhyn-coch; Mavis Jones, Bwlchydderwen; Elwyn Jones, Cemlyn, Trefeurig.

**Yn eistedd**

Dilwyn Davies, Llwynderw, Trefeurig; Eirlys Jones, Bwlchydderwen; Wil Defi Morgan, Lletycaws (Arweinydd); Menna Lewis, Cwmerfyn; Jim Richards, Ceirios, Penrhyn-coch.



Diolch i David Evans, Bow Street am gael benthyg y llun.



Lisa Angharad, Maes Meurig, un o gyflwynwyr Ddoe am ddeg ar S4C

# CANLYNIADAU EISTEDDFOD PENRHYN-COCH

**MEITHRIN**
**Unawd**
1 Betsan Fychan
2 Ifan Evans
3 Sian Evans a Lleucu Thomas

**Llefaru**
1 Betsan Fychan
2 Ifan Evans
3 Sian Evans a Lleucu Thomas

**CYNRADD**
**Unawd (Dosbarth Derbyn)**
1 Cerys Hurford
2 Evie Steward
3 Carys James & James Wilson

**Unawd (Blwyddyn 1-2)**
1 Arwen Exley
2 Sian Jenkins
3 Olivia Blesovsky & Megan Evans

**Unawd (Blwyddyn 3-4)**
1 Zoe Evans
2 Cerys Ann Reeves
3 Charlotte Ralphs

**Unawd (Blwyddyn 5-6)**
1 Sioned Exley
2 Sion Hurford
3 Becky Hicks

**Unawd offeryn cerdd**
1 Elain Donnelly (piano)
2 Sioned Exley (recorder)
3 Sion Jones (trwmped)

**UWCHRADD**
**Unawd**
DIM CYSTADLU

**Unawd offeryn cerdd**
DIM CYSTADLU

**Llefaru (Dosbarth Derbyn)**
1 Carys James
2 Cerys Hurford
3 Evie Steward

**Llefaru (Blwyddyn 1-2)**
1 Megan Evans
2 Olivia Blesovsky
3 Chloe Waters

**Llefaru (Blwyddyn 3-4)**
1 Zoe Evans
2 Cerys Ann Reeves
3 Steffan Huxtable

**Llefaru (Blwyddyn 5-6)**
1 Sion Hurford
2 Becky Hicks
3 Seren Jenkins

**UWCHRADD**
**Llefaru**
Gwenno Morris
Anwen Morris

**Parti Unsain (plant ysgol)**
Y Côr Blwyddyn 1a 2 a 5 a 6
Dosbarth derbyn a cylch meithrin

**Parti Llefaru (plant ysgol)**
Cerdded i'r ysgol
Blwyddyn 1a 2 a 5 a 6
Dosbarth derbyn a cylch meithrin

**LLENYDDIAETH**
**Cadair Osian Rowlands, Llandwrog**
John Meurig Edwards, Aberhonddu

**Telyneg 'Cwlwm'**
Karina Wyn Dafis, Llanbryn-mair

**Englyn digri 'Het'**
Phil Davies, Tal-y-bont

**Stori fer 'Y nos'**
Dafydd Guto Ifan, Llanrug

**Brawddeg CYNEFIN**
Mary Morgan, Llanrhystud a Carys Briddon, Tre'r-ddôl

**Soned 'Cartref'**
John Meurig Edwards, Aberhonddu

**Limrig**
'Un diwrnod fe brynais i filgi'
Phil Davies, Tal-y-bont & Megan Richards,

**Erthygl i gylchgrawn**
John Meurig Edwards, Aberhonddu &
Dafydd Guto Ifan, Llanrug

**Adolygiad o hunangofiant**
John Meurig Edwards, Aberhonddu

**TLWS YR IFANC (dan 21 oed) - darn cerddorol**
Eurion Jones Williams, Cwm-ann

**Gellir gweld y canlyniadau llawn a lluniau o'r Eisteddfod ar**
**www.trefeurig.org/**

Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion
i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd
Chwilio am ofal plant?
Eisiau gwybod sut i fod yn ofalwr/wraig plant?
Chwilio am weithgareddau plant a phobl ifanc, eisiau mwy o wybodaeth.
Cysylltwch â ni am fanylion pellach
Ffôn
01545 574187
E-bost
cis@ceredigion.gov.uk
Gwefan
http://cis.ceredigion.gov.uk
Neuadd Cyngor Ceredigion
Swyddfeydd Cyngor Sir,
Penmorfa,
Aberaeron,
Ceredigion,
SA46 0PA

GWASANAETH TEIPIO
CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS
FFON: 01970 828693
E-BOST:
daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk

*Blodau i bob achlysur*
***Blodau'r Bedol***
*Priodasau . Pen blwydd .*
*Genedigaeth . Angladdau .*
*Blodau i Eglwysi a*
*Chapeli neu unrhyw achlysur*
***Donald Morgan***
*Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB*
*Ffôn 01974 202233*
*Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer*

eich gwefan leol
www.trefeurig.org
newyddion i
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

LLETY PARC
Caffi a thrwyddedd
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y
bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

Y TINCER
ytincer@googlemail.com

# Y Bleidlais Amgen

Gelwir refferendwm fel rheol pan fo newid mawr yn y fantol, a gan amlaf y rheini sydd yn ystyried eu hunain yn wleidyddol flaengar sydd o blaid y fath bleidlais. Mae'r pôl ar y bleidlais amgen yn achosi cryn benbleth felly, oherwydd yr hyn sy'n ei nodweddu mwy na dim yw cyn lleied o newid mae'n addo. Fel sy'n hysbys, roedd y gwleidydd a fynnodd y refferendwm - Nick Clegg y Dirprwy Prif Weinidog - eisoes wedi galw'r sustem yma o bleidleisio yn 'gyfaddawd bach truenus'. Nid y fath o slogan i ysbrydoli'r bleidlais ie! Ac eto, mae'n rhaid bod y sustem yn cynnig rhyw ogwydd newydd ar ein gwleidyddiaeth - o ryw faint o bwys - neu ni fyddai'r Ceidwadwyr am ei gwrthwynebu.

Cyn trafod y sgîl effeithiau posib mae yna angen mentro esbonio'r sustem! Y gofyniad yw bod pleidleiswyr yn mynegi eu barn ar yr ymgeiswyr trwy osod rhifau gyferbyn â'u henwau, yn ôl eu ffafriaeth - yn hytrach na'r un 'x' ar bwys eu dewis blaid. Digon hawdd i'r pleidleiswyr felly, ond nid felly i'r rheini sy'n gwneud y cyfri! Cyfrifir y bleidlais, ac os nag yw'r ymgeisydd buddugol wedi derbyn 50% neu fwy o 'rhifau 1' yr etholwyr, mae'r papurau pleidleisio o blaid yr ymgeisydd lleiaf poblogaidd yn cael eu cyfrif eto. Fe'u rhennir ymysg yr ymgeiswyr eraill ar sail pa enw sydd wedi derbyn rhif '2'. Os yw'r ymgeisydd fwyaf poblogaidd eto i ennill 50% o'r bleidlais, mae'r broses o ail-gyfri pleidleisiau'r ymgeisydd lleiaf poblogaidd yn dechrau eto, a dim ond yn gorffen pan bod un o'r ymgeiswyr yn cyrraedd y ganran hollbwysig.

Pa effaith felly fyddai'r sustem newydd yn cael? Mae un canlyniad o'r bleidlais amgen yn siwr o fod yn berthnasol i nifer yng Ngheredigion, ac etholaethau o'i math. Gan fod y sustem yn eich galluogi i fynegi cefnogaeth i fwy nag un o'r ymgeiswyr (yn ôl trefn eich ffafriaeth bersonol), nid oes anghenraid i rheini sydd am i'w pleidlais wir gyfri, bleidleisio'n dactegol. Hynny yw, mae nifer yn ein hetholaeth erbyn hyn yn pleidleisio naill ai dros y Blaid Ryddfrydol neu Blaid Cymru, er eu bod yn fwy cefnogol o'r Ceidwadwyr neu Lafur, am y rheswm syml eu bod yn ystyried pleidlais i'w dewis blaid yn wastraff - yn wir, mae'r pleidiau poblogaidd wedi anelu eu hymgyrchoedd tuag at y pleidleiswyr yma yn y blynyddoedd diwethaf trwy bwysleisio mai ras dau geffyl sydd yn yr etholaeth hon. Gyda'r bleidlais amgen, mae yna fodd iddynt fynegi eu cefnogaeth am eu hoff blaid trwy osod '1' gyferbyn â'u dewis cyntaf, ac yna '2','3' ac yn y blaen, i fynegi eu barn ar y pleidiau sydd yn weddill.

Dadleir bod yna fanteision eraill: bod y fath sustem yn hybu gwleidyddiaeth fwy cynwysedig, gan fod gwleidyddion yn gorfod apelio i'r mwyafrif i sicrhau buddugoliaeth. Am yr un rheswm, mi fyddai'n anoddach i blaid fel y BNP ennill sedd nac o dan y sustem gyfredol. Ar hyn o bryd gall gwleidydd ennill llai na thraean o'r bleidlais ond eto llwyddo i gipio'r sedd. Mae'r lleiafswm o 50% o'r pleidleisiau hefyd yn sicrhau bod y gwleidyddion hynny sydd yn eistedd ar etholaethau saff yn gorfod gwneud fwy o ymdrech i apelio i'r sawl nad sy'n rhan o'u pleidlais graidd. Gall y sustem arwain at etholiadau agosach, ac o'r herwydd seneddau crog - mae'n debyg fe fyddai'r rhyddfrydwyr wedi derbyn tua 30 sedd ychwanegol yr etholiad diwethaf - ond ar y llaw arall ni fyddai'r un sustem wedi creu buddugoliaeth hyd yn oed mwyach i Thatcher yn '87 a Blair yn '97.

Yn y pen draw, dyfalu rydym am effeithiau hir dymor unrhyw newid, yn enwedig oherwydd diffyg enghreifftiau o'r sustem ar waith - tair gwlad yn unig sy'n ei defnyddio ar hyn o bryd. Oherwydd yr amwyster yma, mae yna le i ddadlau bod rhesymau gwleidyddol, tymor byr, yn cynnig rhesymau atyniadol dros bleidleisio'r naill fordd neu'r llall - boed hynny i greu embaras i'r Rhyddfrydwyr neu godi gwrychyn y Toriaid. Yn y pen draw, y ddadl bwysicaf, a'r un sy'n debyg o'm mherswadio i bleidleisio 'ie', yw sicrhau bod diwygiad o ryw fath yn digwydd - ac nad yw gobeithion o greu sustem fwy democrataidd yn y dyfodol yn cael eu hysgubo i'r neilltu.

**Huw Williams**

## CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 22 Chwefror, yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Cadeirydd, Trefor Davies, yn y gadair. Roedd saith aelod arall yn bresennol ynghyd â'r clerc, a derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mervyn Hughes a Gwenan Price.

Adroddodd y Clerc fod llyfrau cofnodion y Cyngor ar gyfer 1945-2008 bellach wedi'u trosglwyddo i ofal Archifdy Ceredigion; hefyd roedd y Llyfrgell Genedlaethol wedi cadarnhau y byddai'r llyfrau cofnodion ar gyfer 1894-1945 yn cael eu trosglwyddo o'r Llyfrgell i'r Archifdy fel y byddai'r cyfan ar gael gyda'i gilydd.

Nodwyd fod ymateb y Cyngor i'r Cynllun Datblygu Lleol wedi'i anfon i Gyngor Ceredigion erbyn y dyddiad penodedig.

Adroddodd Richard Owen am gyfarfod o Bwyllgor Cyswllt Cynllun Nant-y-moch a gynhaliwyd yn Nhal-y-bont ar 25 Ionawr. Roedd yr aelodau wedi gwrthod arwyddo'r ddogfen yn cytuno fod yr holl broses o ymgynghori â'r gymdeithas leol wedi'i chyflawni'n llwyddiannus. Prif asgwrn y gynnen oedd nad oedd y cwmni (SSE Renewables) yn fodlon cael unrhyw drafodaeth ar faint y gronfa gymdeithasol y bwriedid ei sefydlu pe byddai'r cynllun yn mynd yn ei flaen. Felly, roedd cyfarfod arall i fod lle gellid gwyntyllu'r mater ymhellach. Adroddodd Trefor Davies fod Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig yn y broses o wneud cais am arian i'r Loteri, ac er mwyn cyd-fynd â rheolau'r Loteri, roedd y Grŵp wedi newid ei enw i 'Canolfan Gymunedol Hen Ysgol Trefeurig Community Centre Ltd'.

Cytunwyd i gefnogi cais Elin Jones AC i wrthwynebu'r bwriad i gau gorsaf Gwylwyr y Glannau yn Aberdaugleddau. Daethai llythyr oddi wrth rai o drigolion stâd Maesyrefail yn cwyno am lamp nad oedd yn gweithio ers talwm. Gan nad yw'r stâd wedi'u mabwysiadau gan y Cyngor Sir, ni allai'r Cyngor Cymuned weithredu yn y mater.

Cyflwynodd y Clerc Asesiad Risg ar gyfer holl weithgareddau a chyfrifoldebau'r Cyngor, yn enwedig yr holl drafodion ariannol gan gynnwys yswiriant. Roedd yr adolygiad yn un manwl a threfnus, a chymeradwywyd ef gan y Cyngor.

Roedd un cais cynllunio ar gyfer gwelliannu diogelwch tân ym Mhlas Gogerddan — dim gwrthwynebiad.

Adroddwyd fod dau wedi ymgeisio am swydd y Clerc, a dosbarthwyd y ceisiadau i'r aelodau. Penderfynwyd cyfweld y ddau ymgeisydd ar 7 Mawrth. Yn dilyn y cyfweliadau, penodwyd Mrs Meinir Jenkins, Llanfarian, yn Glerc y Cyngor, i gychwyn ar ei gwaith ym mis Ebrill. Mae Mrs Jenkins eisoes yn Glerc i gynghorau Llanfarian a'r Faenor, ac felly'n brofiadol yn y gwaith. Pob dymuniad da iddi yn y swydd newydd.

Am gofnodion llawn gweler www.trefeurig.org.

RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
E W R
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
Sefydledig dros 30 mlynedd
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

ytincer@googlemail.com

# Clerc yn ymddeol

Wedi deuddeng mlynedd ar hugain fel clerc Cyngor Cymuned Trefeurig, ymddeolodd Mrs Pat Walker, Sunnyside, Cwmsymlog o'r swydd ddiwedd Mawrth. Bydd colled fawr ar ei hôl. Swydd rhan amser yw swydd y clerc ond i Pat Walker rhoi gwasanaeth oedd yn bwysig ac nid cyfrif yr oriau, a dros y blynyddoedd rhoddodd oriau mawr o waith di-dâl a diflino. Er enghraifft mynd o amgylch y plwyf gyda swyddogion gwahanol gwmniau ac adrannau o fewn y Cyngor Sir (a'r Cyngor Dosbarth cyn hynny) i leoli neu chwilio safleoedd addas ar gyfer goleudadau cyhoeddus, seddau parc, hysbysfyrddau ac ati, neu cerdded llwybrau cyhoeddus y gymuned i baratoi adroddiad i'r Cyngor ar eu cyfer. Roedd yn mynychu cyrsiau a darlithoedd gyda'r nos fyddai o fudd iddi hi fel clerc ac i'r Cyngor.

Yn ystod ei chyfnod yn y swydd mae wedi gweld a bod ynghlwm â llawer o newidiadau a digwyddiadau pwysig a chyffrous ym mywyd y Cyngor. I enwi dim ond rhai:-

Newid yn ffiniau'r Gymuned gyda plwy Parsel Canol yn cael ei uno â Chyngor Trefeurig.

Newid yn sut mae'r cofnodion y Cyngor yn cael eu cadw. Hyd 1979 roedd y cofnodion yn Gymraeg yn unig, ac yn cael eu cadw mewn llawysgrifen mewn Llyfr Cofnodion pwrpasol. Erbyn heddiw maent yn cael eu cadw yn ddwyieithog ar gyfrifiadur y Cyngor ac i'w gweld ar wefan Gymunedol Trefeurig http://www.trefeurig.org/cymuned-cyngor.php

Gweld adfer a diogelu Simne Fawr Cwmsymlog

Cynllunio a gosod map o'r ardal a baner y Ddraig Goch ar sgwâr Penrhyn-coch i ddathlu'r Mileniwm.

Comisiynu bathodyn swydd arbennig ar gyfer Cadeirydd y Cyngor.

Wrth ffarwelio â hi, estynnwn ein diolch diffuant iddi am flynyddoedd o wasanaeth clodfawr, a dymunwn iechyd iddi fwynhau ymddeoliad haeddiannol.

Bydd Pat yn dal i gael ei gweld yn gwneud gwaith cyhoeddus o bryd i'w gilydd gan mai hi yw Swyddog Llywyddu Etholiadau yn yr orsaf bleidleisio leol.

**ED**



Gwyneth Sadler a Pat Walker yn selio bocs pleidleisiau ar ol etholiad rhai blynyddoedd nôl.

# COLOFN MRS JONES

Un peth sydd yn fy rhyfeddu yw'r newid sydd wedi bod mewn arferion pobl yn ystod fy mywyd i. Merched - fel myfi fy hun! - nas gwelwch hwy mewn sgertiau ar wahân i briodasau ac angladdau a chyfweliadau a dynion mewn trowsusau bach. Nid oeddwn i yn hoff o'r ffasiwn am shorts i ddynion ond bu'n rhaid i mi ddysgu ei hoffi oherwydd yr oedd Meirion yn hoff ohonynt, fe dybiech felly y buaswn i yn pledio achos unrhyw un a fyn eu gwisgo. A mi fyddech yn iawn, dim ond i bawb gofio bod adegau pan nad yw eu gwisgo yn addas. Y mae'n anodd cymryd rhywun sydd yn ceisio am swydd (neu wobr eisteddfod !) o ddifrif os yw yn gwisgo trowsus bach. Pethau gwyliau ac ymlacio ydynt yn eu hanfod ac ydech chi yn mynd i benodi rhywun i swydd sydd yn prancio i mewn i'w gyfweliad fel petai ar fynd ar wyliau? Ac a ydech chi yn mynd i ddyrchafu neu roi adroddiad blynyddol da i rhywun sydd yn dod i'w waith mewn crys T a shorts? Fe ddylai rhywun wneud, wrth gwrs, fe ddylai rhywun drin pawb yn ôl yr a hyn a haeddai ond dim ond Duw sydd yn medru gwneud hynny, y mae pob meidrolyn yn gaeth i'w farn a'i ragfarn. Fel yr arferai fy hen nain ei ddweud, y dyn yw'r dillad, a mae gwisgo dillad ymlacio ar adegau difrifol megis gwaith yn awgrymu natur wagsaw ac ysgeuwedd. Felly, gair o gyngor i chi hogiau ifanc, cadwch y shorts ar gyfer gwyliau a chwaraeon.

Mae merched, wrth gwrs yn cadw llygad ar ffasiwn a cholur a steil. Mae hyd yn oed merch fel fi sydd ddim yn rhyw ferch nodweddiadol iawn yn trio gorau fedraf ar gyfer achlysuron arbennig. Nid wyf yn ferch nodweddiadol am nad oes gennyf ddiddordeb ysol mewn na ffasiwn na cholur, a hyd yn oed petai gennyf, erys dau ystyriaeth, y mae pethau pwysicaf mewn bywyd yw un peth a'r llall yw na fedrir gwneud ' a silk purse out of a sow's ear' fel y dywedwyd wrthyf droeon pan yn ifanc. Ond yr hyn sydd yn fy nharo i yw fod dynion fel petaent yn benderfynol o beidio, ychydig o ddynion sydd yn gwisgo siwtiau i ddim byd heblaw angladd na phriodas bellach, yn wir, y mae dyn mewn tei wedi mynd yn beth dieithr. Ond gwrandewch ddynion, nid oes dim smartiach na dyn mewn siwt a gwasgod a thei, neu ddyn wedi ei wisgo mewn trwsus da a sports jacket. Hen ffasiwn? Ydi, efallai, ond mae'n llawn steil ac nid yw steil yn mynd allan o ffasiwn. Gochelwch y trowsusau byr a chofleidiwch eich teis a'ch cufflinks - a chi ferched, mynnwch eu bod nhw yn gwneud fel eu bod hwy yn bartneriaid addas i chi yn eich crandrwydd.

Peth arall sydd wedi newid, wrth gwrs, yw ymarweddiad pobl. Ni chaniateir ysmygu dan do ond fe gewch fronfwydo yn gyhoeddus. Rwan, mae hyn yn fy nharo i yn wirioneddol od ac fe wnâi hynny petawn i ddim yn ysmgyu fy hun. Un rheswm paham y croesawodd caffis a gwestai y rhwystr ar ysmygu yw fod pobl yn gadael eu busnesau os oedd ynddynt rhywun oedd yn ysmygu. Felly, digon teg rhywsut, iddynt fod yn barod i fabwysiadu dim ysmygu - ond pam mynd ati wedyn i ganiatàu arfer sydd hefyd yn gwacàu caffis?


Synnaf at nodwedd arall yn y ffordd y mae pobl yn bihafio pan yn bwyta allan neu yn wir, yn cael paned yn ffreutur y Llyfrgell!. Bellach, mae'n gwbl fanesol cadw twrw a gweiddi a chwertthin ar draws yr ystafell fel petai chi yw'r unig rai yn y byd ac nad oes ots am gysur a mwynhad neb arall. Mae'n amhosibl i neb glywed dim gan dwrw pobl eraill mewn ambell i gaffi. Beth sydd wedi digwydd i'r syniad o breifatrwydd cwmniaeth? A beth sydd wedi digwydd i'r syniad o gysur corfforol pobl eraill? Yr wyf fi, wrth gwrs, yn fyddar ond, yn ddiweddar, bu'n rhaid i mi ofyn i fyrddaid dawelu oherwydd yr oeddynt mor swnllyd fel eu bod yn merwino fy nghlustiau i a minnau heb fy 'hearnig aids', duw'n unig a ŵyr beth oeddent yn ei wneud i eraill er fe roedd rhai wedi gadael eu bwyd ar eu hanner oherwydd y sŵn. Wrth gwrs, pan fyddaf yn gwisgo fy nhaclau clywed, gall gormod sŵn f'effeithio, mewn ffordd arall, ni allaf glywed yr hyn mae fy nghwmni yn ceisio ei ddweud wrthyf oherwydd fod trwst yn fy myddaru, yr wyf wedi gweld Gwynn fy mrawd - sydd hefyd yn fyddar - a mi yn gorfod bodloni ar wenu ar ein gilydd am fod gormod o sŵn amgylchynnol yn golygu na fedrwn siarad â'n gilydd.

Felly, ar ôl i chi ymwisgo ac ymdrwsiadu, cerwch am bryd o fwyd - ond cadwch eich sgwrs i'ch bwrdd eich hun heb frefu chwerthin dros bob man. Dyna'r ffordd i fwynhau eich hun gan adael i bawb arall fwynhau hefyd. A mi rydw i am fynd i brynu het, mae gennyf briodas......

Boed i chi i gyd gael Pasg bendithiol.

# ADOLYGIADAU

*Diarmuid Johnson Y Gwyddel: O Geredigion i Galway,* Gwasg Gomer £7.99 120t.




Yn y llyfr hwn cawn hanes Diarmuid Johnson, gŵr a fagwyd yn Iwerddon ond sydd â'i fam, Llinos, yn dod o Geredigion. Fe aeth hi i Goleg Aberystwyth yn y 1950au a chyfarfod â Gwyddel ifanc, Desmond Johnson, oedd yn gwneud ymchwil mewn gwyddoniaeth yn y Coleg. Ganwyd Diarmuid yng Nghaerdydd yn 1965 ond yn 1969 fe symudodd y teulu i ddinas Galway yng ngorllewin Iwerddon pan benodwyd ei dad ar staff Coleg y Brifysgol yno.

Felly yn Galway y magwyd y bachgen. Siaradai ei fam Gymraeg ag ef, felly roedd ganddo grap da ar Gymraeg llafar, ond ni ddaeth i arfer darllen Cymraeg tan ddyddiau Coleg. Hefyd byddai'r teulu yn ymweld â Tad-cu a Mam-gu yn Aberteifi am dair wythnos bob haf i gadw mewn cysylltiad â Chymru. Ond yn Galway, y tu allan i'r cartref Saesneg oedd y brif iaith, ond gyda Gwyddeleg yn yr ysgol. Ail iaith oedd Gwyddeleg i'w dad, ond roedd yn frwd drosti, ac yn ei defnyddio yn ei waith fel darlithydd gwyddoniaeth yn y Brifysgol. Felly roedd yn falch iawn pan gymerodd y bachgen at yr iaith hefyd; yn wir ieithoedd a cherddoriaeth ddaeth yn brif ddiddordebau Diarmuid.

Yn y llyfr cawn ddarlun diddorol o Galway a rhai o'i chymeriadau yn y 1970au a'r 80au. Mae Galway ar lan môr Iwerydd wrth gwrs, 'next stop, America' fel y dywed rhai. Roedd yr awdur yn hoff iawn o nofio yn y môr ar bob adeg o'r flwyddyn, a cheisio rhwyfo caiac mewn dyfroedd peryglus ambell dro. Cawn hanes ef a'i dad yn pysgota afonydd hefyd.

Cawn hanes treigl y tymhorau yn Galway, a hanes creu'r coelcerthi ar gyfer noson Calan Gaeaf (dyna'r adeg draddodiadol ar gyfer coelcerth; rwy'n credu mai Protestaniaeth oedd yn gyfrifol am symud dyddiad y digwyddiad ymlaen ychydig ddyddiau yng Nghymru a Lloegr er mwyn dathlu methiant cynllwyn Guto Ffowc, ond go brin y gellid disgwyl i'r Catholigion ddathlu peth felly).


Un o'r penodau mwyaf difyr yw'r un am gerddoriaeth draddodiadol yn Iwerddon a thu hwnt. Dechreuodd yr awdur ddysgu chwarae y chwiban ('tin whistle') yn ifanc, a buan y daeth yn feistr ar y gwaith. Daeth i adnabod llu o gerddorion gwerin a chawn hanes sawl un ohonynt yn y llyfr. Mae hon yn bennod ddiddorol iawn ac yn dweud llawer wrthym am fyd canu gwerin Iwerddon.

Darlun o Iwerddon y 70au a'r 80au a geir yma. Ar ôl dyddiau coleg, fe grwydrodd yr awdur yn helaeth a gweithio fel darlithydd a newyddiadurwr yng Nghymru, Llydaw, yr Almaen a Gwlad Pŵyl. Tra oedd yn gweithio yn Aberystwyth bu'n byw am gyfnod yn y Borth. Mae newid cymdeithasol yn Iwerddon, fel ym mhobman arall, wedi parhau a chyflymu yn yr ugain mlynedd diwethaf, felly mae'r awdur yn gweld rhai pethau'n ddieithr iawn pan fydd yn ymweld â'r wlad yn awr. Ond rwy'n siŵr y bydd arbenigrwydd Iwerddon a'r Gwyddyl yn parhau am sbel hir i ddod.

**Richard Owen**

---

*Cheerful with Insufficient Reason*, John Norrington-Davies. (Cyhoeddwyd gan John Norrington-Davies) £19.51 428t




Hanes dyddiau John Norrington-Davies, Dôl-y-bont, yn Ysgol Sirol Edmonton, 1938-1943, yw prif drywydd y llyfr, ond mae'n ymadael yn gyson â'r llwybr canol hwnnw i ddilyn trywyddau eraill sy'n digwydd codi. Ymhlith nifer fawr o is-draethodau o'r fath, ystyrir pa gyhyrau a ddefnyddir i ddal pladur, beth yw natur y llwch sy'n codi o ysgubau barlys, adroddiad ar ymchwil i ymddygiad locustiaid, a gwybodaeth am George Stapledon a datblygiad tir glas. Ceir hefyd ddisgrifiad manwl o ddigwyddiadau'r ail ryfel byd ar ei hyd, gan gynnwys gwybodaeth dechnegol am awyrennau'r Almaen, sut i'w nabod yn yr awyr a natur eu bomiau.

Y rhyfeddod pennaf yw'r cofnodion trylwyr o gynnydd addysgol yr awdur yn ystod ei bum mlynedd yn yr ysgol, yn farciau arholiadau ac yn sylwadau athrawon y pynciau yn yr adroddiadau blynyddol hyd at ei School Certificate, a'r cyfan yn cynnwys dogn dda o hiwmor.

O ystyried bod y llyfr hefyd yn olrhain llinach yr awdur o ochr ei fam (Norrington) a'i dad (Davies) gan gynnwys enwau'r holl ffermydd y bu teulu ei dad yn gysylltiedig â nhw yng ngorllewin Cymru oddi ar 1841, mae'n gryn gompendiwm o ffeithiau ac agweddau. Oes rhagor i ddod tybed?

# Gofal Traed Aberystwyth

Faint ohonoch chi ddarllenwyr *Y Tincer* sydd wedi pasio ffenest un o adeiladau'r Porth Bach (Eastgate) yn Aberystwyth a sylwi bod 'na siâp troed mawr ar y gwydr? Nifer ohonoch, rwy'n siŵr. Dyma gartref meddygfa Gofal Traed Aber, a 'falle bod rhai ohonoch chi wedi bod mewn i gael triniaeth yn y feddygfa arbennig hon. Ond a oeddech yn gwybod bod 'na gysylltiad agos iawn rhwng y busnes hwn â merch o ardal *Y Tincer*? Un o gyd-berchnogion y feddygfa yw Shân Jones, sy'n byw ym Mont-goch gyda'i gŵr John Henry, a'r plant, Alys a Rhodri. Ond un o blant Llandre yw Shân; fe'i ganwyd yn sir Gaerfyrddin, ond symudodd y teulu i'r Lôn Groes, Bow Street, pan oedd Shân yn bedair oed, cyn symud i Landre, lle mae ei rhieni'n byw o hyd. Un o Landre yw ei gŵr hefyd, ac yno mae ei rieni yntau'n byw, gyda'r ddau deulu'n cefnogi gweithgareddau ardal Y Tincer ers blynyddoedd lawer.

Mae'r busnes Gofal Traed wedi ei leoli yn Aberystwyth ers y 1970au, gan symud i'r Porth Bach rhyw saith mlynedd yn ôl, ond dim ers Hydref 2010 mae Shân yn gyd-berchennog arno. Cyn hynny bu'n gweithio gyda'r Gwasanaeth Iechyd, lle bu'n feddyg traed yn arbenigo mewn trin traed unigolion sy'n dioddef o glefyd y siwgr. Mae'r feddygfa yn y Porth Bach yn trin nifer o anhwylderau cyffredin yn ymwneud â'n traed megis llyfnhau croen caled, torri ewinedd poenus, ynghyd â thriniaethau mwy arbenigol megis creu mewnwadnau er mwyn cywiro problemau bio-mecanyddol, a chynnig llawdriniaeth dan anaesthetig lleol.

A wyddoch chi ein bod, ar gyfartaledd, yn cerdded rhwng 8—10,000 cam bob dydd, a'n bod, ar gyfartaledd, yn cerdded dros 100,000 o filltiroedd yn ystod ein hoes! Mae'n bwysig, felly, ein bod yn gofalu am ein traed. Dyma rai o awgrymiadau Shân ynglyn â sut i'w cadw'n iach:

Osgoi torri'r ewinedd yn rhy fyr, yn enwedig ar yr ochrau.

Defnyddio ffeil ewinedd i gael gwared ar unrhyw ddarnau miniog ar yr ochrau.

Golchi'r traed yn ddyddiol — ond peidio â'u socian am ormod o amser — dylai pum munud fod yn ddigon.

Mynd i weld arbenigwr yn syth os oes problemau'n codi.

Cofiwch edrych am y siâp troed tro nesaf y byddwch yn cerdded ar hyd y Porth Bach!

Mae'r *Tincer* yn dymuno'n dda i Shân a'i chyd-berchennog yn eu menter newydd gyda Gofal Traed Aber.


Shân efo'i merch Alys



# Myfyrdod y Pasg

Ar ŵyl y Pasg daw dau brofiad gwahanol iawn at ei gilydd, sef dioddefaint a llawenydd.

Cofiwn yn y lle cyntaf am ddioddefaint Crist. Nid yn unig y dioddefaint corfforol arteithiol ar y groes, ond y llwybr caled a gerddodd Iesu tuag at Galfaria. Cafodd ei fradychu gan un disgybl, ei wadu gan ddisgybl arall, a chafodd driniaeth anghyfiawn a dirmygus gan y dyrfa, Pilat, yr Archoffeiriad a'r milwyr. Bu'n rhaid iddo gario'i groes ar hyd y llwybr serth a chaled i ben bryn Calfaria. Ac yno, ar y groes, llefodd at ei Dad nefol, "Fy Nuw, fy Nuw, pam wyt ti wedi troi dy gefn arna i?"

Mae llawenydd yn rhan o brofiad y Pasg hefyd gan y gwyddom nad y groes yw diwedd y stori. Daeth Iesu nôl yn fyw ar y trydydd dydd, ac ymddangosodd i nifer o bobl a oedd yn ei adnabod. Gallwn ddathlu ar Sul y Pasg gan fod Iesu wedi atgyfodi. Nid dathlu yn unig am fod gwyrth wedi digwydd, ond dathlu'n ddiolchgar gan mai am ein camweddau ni y bu farw Iesu. Drwy ei aberth Ef ar y groes, cawn ninnau ein gwneud yn iawn gerbron y Duw sanctaidd.

'Dewch i ni roi ein ffydd o'r newydd yn Iesu y Pasg hwn felly, gan gredu y cawn ni faddeuant a rhyddid drwy Iesu.

Fe wyddon ni fod llawenydd a dioddefaint yn plethu i'w gilydd yng ngwead ein profiadau o fywyd. Er y byddwn yn wynebu pob math o dreialon, gallwn brofi tangnefedd a llawenydd hefyd pan fyddwn yn profi cariad Duw a gofal cyfeillion wrth i ni oresgyn y rhwystrau a ddaw yn ein ffordd.

Pasg llawen iawn i chi i gyd.

**Siôn Meredith**

ytincer@googlemail.com

## COLOFNYDD Y MIS



### Bethan Evans

O ganlyniad o weithio ar amrywiaeth o raglenni dogfen gan gynnwys yr 'Human Planet' a gynhyrchir gan y BBC, rwyf wedi bod yn hynod o ffodus i gwrdd â llawer o bobl diddorol ac wedi medru teithio i rai o fannau mwyaf anghysbell y byd. Yr wyf wedi profi amodau rhewllyd Gogledd Canada a'r Ynys Las ac yna cyferbyniad eithafol wrth dreulio amser yn y jyngl llaith ym Mhapua Guinea Newydd.

Ar ôl ystyriaeth rwyf o'r farn taw yr Ynys Las (Grønland) yn yr Arctig, yr ynys fwyaf yn y byd, oedd fy hoff leoliad i ffilmio. Dim ond 57,000 o fobl sy'n ymgartrefu yno a'r mwyafrif yn byw mewn pentrefi ar yr arfordir gorllewinol.

I gychwyn ymddangosodd y bobl a'r lle i fod yn wahanol iawn i ble gefais fy magu yn y Borth. Dydy Derek y Siop ddim yn gwisgo trowsus wedi ei greu o ffwr yr arth wen, gwisg hanfodol i berchennog y siop leol yn Qaanaaq, yng Ngogledd yr Ynys Las. Does ddim 'Eirwen y Llaeth' gerllaw i wasanaethu'r trigolion a dod a llaeth ffres i'r drws yn ddyddiol, maent yn dibynnu ar laeth UHT sy'n cael ei fewnforio gan awyren o Ddenmarc sydd dros 2,300 milltir i ffwrdd. Dydy'r haul ddim yn machlud yno am chwe mis ac mae'n rhaid i'r trigolion ymdopi gyda heulwen llachar am 24 awr y dydd, yna mae'r heulwen yn diflannu a thywyllwch sy'n bodoli am y chwe mis nesaf. Pan yw'r eira'n disgyn yng Nghymru rydym i gyd yn cwyno ei fod yn ein rhwystro rhag teithio, yn yr Ynys Las croesawir yr eira ac mae pawb yn hapus. Mae'r eira yn eu galluogi i deithio yn fwy hwylus, mae'n dynodi'r amser i glymu'r tîmau o gŵn i'r slediau ac yn rhoi'r rhyddid i drafeilio'r i'r tiroedd hela neu i ymweld â pherthnasau sy'n byw dros yr ia sydd wedi ffurfio ar arwyneb y moroedd.

I gychwyn mae pobl yr Arctig a'u hamgylchedd yn ymddangos yn wahanol iawn i fywyd yng Nghymru. Fodd bynnag, ar ôl i mi ffilmio yna nifer o weithiau a threulio amser yng nghwmni y teuluoedd Inuit, sylweddolais bod ein ffordd o fyw yn debyg iawn. Mae'r ymdeimlad o gymuned yn ganolig i'w bywydau nhw hefyd. Maent yn wynebu yr un problemau — mae eu hiaith frodorol o dan fygythiad, mae'r plant yn symud o'r pentrefi bach i'r dref neu i Ddenmarc i chwilio am waith ac mae'r newid yn yr hinsawdd yn fygythiol. Serch hynny mae pobl Inuit yr Ynys Las yn meddu ar un nodwedd sy'n debyg iawn i ni y Cymry, maent yn wydn.

Derbynais groeso cynnes iawn tra'n aros gyda'r teuluoedd Inuit, buom yn gofalu amdanaf fel un o'r teulu. Soniodd aelodau hŷn y gymuned eu bod yn annog y bobl ifanc i ddefnyddio a chadw eu mamiaith ac i barchu eu treftadaeth, yn debyg iawn i'r ymdeimlad o falchder wnaeth Mam-gu feithrin ynof fi. Yn debyg i drigolion y Borth, mae trigolion Qaannaaq wrth eu boddau yn dathlu. Gwelwyd tebygrwydd amlwg rhwng y gêmau a chystadlaethau a gynhaliwyd ar eu diwrnod cenedlaethol a'r rheini a welir yn ystod Carnifal y Borth! Yn bwysicaf oll oedd y ffaith bod y gymuned yn cydnabod pryd i ddod at ei gilydd, boed yn yr amseroedd da neu y rhai drwg.

Tra'n teithio trwy'r Arctig roedd yna luniau o'r Borth a fy nheulu gyda fi i ddangos i'r trigolion. Roeddent i gyd yn ymateb iddynt yn yr un modd wrth ddweud ei fod "yn edrych yn lle gwyrdd, yn anhebyg iawn i fan hyn". Rhyw ddydd hoffwn cael un o fy ffrindiau o'r Ynys Las i ymweld â mi yng Nghymru er mwyn dangos bod y ddwy wlad ddim mor anhebyg wedi'r cyfan.

**Yn wreiddiol o Perllan Hen, Glanwern, y Borth, mae Bethan bellach yn byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio fel Is-Gynhyrchydd ar raglenni megis 'Tribe' ac 'O Gymru Fach'**

**Y mis nesaf**: Nia Peris

# YSGOL PENRHYN-COCH

### Eisteddfod yr Ysgol

Ar yr 11eg o Fawrth, cynhaliwyd Eisteddfod yr Ysgol. Ein beirniaid eleni oedd Efan Williams ac Elen Pen-cwm. Yn wahanol i'r drefn arferol, cafwyd rhagbrofion yn ystod y bore gyda 2 o bob llys yn symud drwyddo i'r Eisteddfod yn y prynhawn. Ar ddiwedd diwrnod hwyliog o gystadlu, lle gwelwyd pob plentyn yn yr ysgol yn cymryd rhan unigol, Seilo a fu yn fuddugol. Enillwyd cadair yr Eisteddfod gan Becky Hicks. Llongyfarchiadau i bawb am eu gwaith caled ac i'n beirniaid a'n cyfeilyddes Heddwen Evans am eu gwaith arbennig.

### Eisteddfod yr Urdd

Gwelwyd criw da o ddisgyblion yr ysgol yn teithio i lawr i Eisteddfod Gylch yr Urdd. Llwyddodd Sion Wyn i ennill y drydedd wobr ar y llefaru blwyddyn 5 a 6. Daeth y parti llefaru yn gyntaf ynghyd â chor yr ysgol. Yn ystod y prynhawn, gwelwyd y parti dawnsio disgo a'r dawnsio gwerin yn cystadlu ac yn ennill drwodd i'r Eisteddfod Ranbarthol. Daeth y grŵp dawns creadigol yn ail yn y gystadleuaeth.
Teithiodd yr holl bartion i fyny i'r Eisteddfod Ranbarthol ym Mhontrhydfendigaid. Er na chafwyd unrhyw wobrau gan y Côr na'r Parti llefaru, cafwyd beirniadaethau adeiladol iawn. Yn yr Eisteddfod Ddawns, llwyddodd y grŵp Dawnsio Gwerin i ddod yn drydydd a'r grŵp dawnsio disgo yn ail. Llongyfarchiadau i bawb ar eu llwyddiant. Diolch i'r holl ddisgyblion a'r gwirfoddolwyr am eu hymroddiad, i'r staff am y trefnu ac i'r rhieni am eu parodrwydd i gefnogi'r plant.

### Eisteddfod Penrhyn-coch

Bu mwyafrif o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Penrhyn-coch. Gwelwyd nifer dda iawn o ddisgyblion yn cefnogi ac yn cystadlu yn unigol neu fel aelodau o grŵp. Llongyfarchiadau i bawb a fu wrthi yn cystadlu.

### Trawsgwlad

Bu tri o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Nhrawsgwlad Rhanbarth Ceredigion yn Llangrannog. Y tri a fu yn cystadlu oedd Owain Wilson, Mathew Merry ac Aneurin Rowlands. Daeth Mathew yn 10fed yn ei ras. Llongyfarchiadau i'r tri ar eu llwyddiant.

### Ysgolion Eco

Llongyfarchiadau i'r Pwyllgor Eco ar ennill y wobr arian. Byddant yn awr yn gweithio tuag at y faner werdd cyn gynted â phosib.

### Ras 10K Abertawe

Ar y 26ain o Fedi, bydd Mr Evans, Mr Roberts a Mr Lewis yn rhedeg ras 10K Abertawe i godi arian i Ysgol Penrhyn-coch. Os hoffech eu noddi cysylltwch â'r ysgol neu un o'r staff.



Becky Hicks, enillydd Cadair Eisteddfod yr Ysgol



Capteiniaid llysoedd yr ysgol gyda'r beirniaid ar ddiwrnod ein Eisteddfod Ysgol





Rhys Taylor wrthi yn diddanu y disgyblion yn ystod ei ymweliad â'r ysgol yn ddiweddar.

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

JONATHAN JAMES LEWIS
SAER COED ADEILADYDD
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH
01970 880652
07773442260

# YSGOL RHYDYPENNAU

### Eisteddfod Yr Urdd

Yn dilyn perfformiadau arbennig yn yr Eisteddfod Gylch, dyma'r canlyniadau:- Cafodd Rhys Tanat ail am ganu Cerdd Dant a thrydydd am ganu unawd. Cafodd Catrin Manley drydydd am ganu Cerdd Dant ac fe gafodd Teleri Morgan gyntaf am ganu Cerdd Dant.
O ran y grŵpiau; fe enillodd y Parti Unsain a'r Parti Cerdd Dant ac ail oedd Yr Ymgom.

Yn yr Eisteddfod Ranbarth ym Montrhydfendigaid; methu o drwch blewyn wnaeth y parti unsain gan ddod yn ail ond llwyddodd y Parti Cerdd Dant i ennill a sicrhau lle haeddiannol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe fis Mai.

### Ysgol Iach. Ysgol Eco ac Ysgol Fasnach Deg.

Mae'r ysgol bellach ar fin ennill Cam 4 yng nghynllun Ysgolion Iach Ceredigion. Ac yr ydym newydd dderbyn dwy faner newydd er mwyn hyrwyddo'r ysgol, am yr ail waith, yn Ysgol Eco ac yn Ysgol Fasnach Deg.

### Ymweliadau Ŵyn Bach yn Y Derbyn

Hoffa'r ysgol ddiolch i Carwen (Pantyperan) am ei hymweliad arbennig gyda'r dosbarth Derbyn. Llwyddodd Carwen i ddod â thri oen bach i'r dosbarth er mwyn i'r plant gael gweld, teimlo a bwydo'r creaduriaid. Cafodd y plant gyfle hefyd i wrando ar Carwen yn sgwrsio am sut i ofalu am yr ŵyn.

### Y Ganolfan Amgen

Ar y 10fed o Ebrill fe aeth blwyddyn 4 a 5 i'r Ganolfan Amgen ym Machynlleth. Yn ystod yr ymweliad mwynhaodd y plant amrywiaeth o weithgareddau diddorol gan ddysgu llwyth o wybodaeth am ailgylchu ac am faterion 'Gwyrdd' yn gyffredinol. Rhai diwrnodau'n ddiweddarach fe aeth blwyddyn 2 i'r Ganolfan. Buont yn dysgu am ailgylchu hefyd ond yn ychwanegol i hyn, y prif bwrpas oedd dysgu am ynni adnewyddol.

### Arad Goch

Cafwyd ymweliad arall gan Gwmni Arad Goch yn ddiweddar. Y testun y tro hwn oedd cynhyrchiad o'r enw 'Llyncu Geiriau'. Bwriad y cynhyrchiad oedd hybu darllen a throsglwyddo'r neges i'r plant bod geiriau a darllen yn rhan annatod o fywyd. Defnyddiwyd darnau allan o lyfrau amrywiol gan awduron megis T. Llew Jones a Daniel Glyn. Fel arfer cafwyd perfformiadau proffesiynol a graenus iawn gan yr actorion.

### Noson Agored

Cynhaliwyd noson agored yn yr ysgol ar y 4ydd o Fawrth. Cafodd y rhieni gyfle i weld gwaith y plant a chael sgwrs adeiladol gyda'r athrawon.

### Mari Lloyd Jones

Ar y 10fed o Fawrth, cafodd Blwyddyn 5 a 6 y fraint a'r anrhydedd o gwrdd â'r artist enwog Mari Lloyd Jones. Mae'r dosbarth wedi bod yn astudio gwaith yr artist Cymreig ac yr oedd hi'n gyfle iddynt i weld oriel o waith Mari a chyfle hefyd iddynt holi cwesyiynau am gelf a sgwrsio'n gyffredinol am ei bywyd. Yn ychwanegol i hyn bu'r plant yn creu darluniau wedi eu selio ar arddull unigryw Mari Lloyd Jones.

### 'Cychwyn Calon'

Cynhaliwyd wythnos 'Cychwyn Calon' yn ystod fis Mawrth. Yn ystod y sesiynau cafwyd cyfle i atgoffa a chodi ymwybyddiaeth y plant o ddamweiniau a all ddigwydd yn y cartref. Bwriad y cynllun yw hyfforddi'r plant sut i ddelio â sefyllfaoedd argyfyngus. Mae'r ysgol yn aelod o'r cynllun hwn ers wyth mlynedd bellach.

### Chwaraeon

Mae tîm hoci'r ysgol wedi cael tymor neilltuol o dda eleni eto. Nid yn unig llwyddodd y tîm i ennill y Gynghrair yng nghylch Aberystwyth ond cipiodd y tîm y Cwpan hefyd. Llongyfarchiadau mawr iddynt am ennill 'Y Dwbwl!' Dyma'r drydedd flwyddyn yn olynol i'r tîm gwblhau'r orchest arbennig hon. Gwych!

### Clwb Cant

Yn ystod Cyfarfod Cyfarfod Rhieni ac Aathrawon diweddar cyhoeddwyd enillwyr Fis Ebrill. Dyma'r canlyniad
1af - £25 Dylan Edwards, Llandre.
2il - £15 Pine Croft, Llandre.
3ydd-£10 Gwawr Morgan, Ger y Nant, Dolau.
Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk



Y Parti Cerdd Dant Buddugol.



Y Dwbl am y trydydd tro! Y Tim Hoci buddugol.



Y Cyngor Ysgol a'r Pwyllgor Eco gyda'r ddwy faner newydd.



Ŵyn bach yn ymweld gyda'r Dosbarth Derbyn.



Sesiwn 'Cychwyn Calon' gyda plant blwyddyn 5 a 6.

# YSGOL PEN-LLWYN



Pawb ar Fferm Cwmwythig.



Bwydo oen swci ar y fferm.

### 'Evolve Sport'

Ers Mawrth 14eg mae grŵp o blant Blwyddyn 4, 5 a 6 yn mynychu cyrsiau evolve sport pob nos Lun ac mae'r plant wrth eu bodd yn dysgu sgiliau amrywiol.

### Gwasanaeth gyda'r Parchg Roger Thomas

Yn ystod y mis bu'r Parchg Roger Thomas yn cymryd gwasanaeth boreol yn yr ysgol ac fe fuodd yn sôn am wlad Israel, Jeriwsalem a Môr Galilea. Adroddodd stori Iesu Grist ar lan y môr yn pregethu i'w bobl.

### Brigâd Dân

Daeth Karen Roberts o wasanaeth y Frigâd Dân i ddysgu dosbarth 1 am ddiogelwch tân. Roedd yn brynhawn arddechog gyda pawb wrth ei boddau i gwrdd â Tanni. Cafodd rhai o'r plant gyfle i wisgo i fyny hefyd!!

### Eisteddfod Cylch Aberystwyth (Mawrth 18fed)

Yn ystod y dydd fe lwyddodd Haf Evans i gyrraedd y llwyfan ac ennill 3ydd yn y gystadleuaeth Llefaru Bl3 a 4. Yna yn hwyrach bu'r parti Llefaru a'r Grŵp Ymgom yn llwyddiannus i ennill 3ydd yn eu cystadlaethau. Llongyfarchiadau i chi oll am wneud eich gwaith mor dda yn enwedig Haf Evans a'r Grŵp Ymgom. Diolch hefyd i Miss Fflur Jones am ddysgu'r parti a'r grŵp Ymgom.

### Diwrnod y Trwynau Coch

Ar ddydd Gwener, Mawrth 18ed gwisgodd y disgyblion wisg nos neu wisg coch yn ystod y dydd ac fe gyfrannon nhw £1 at achosion da er mwyn gwisgo i fyny. Roedd pawb yn gwisgo trwyn coch ac fe gawson ddiwrnod hwyliog iawn.

### Campau'r Ddraig-Golff

Cynhelir clwb chwaraeon yn yr ysgol bob nos Iau. Mi fu y plant yn lwcus i dderbyn sesiwn gan un o hyfforddwyr arbenigol Campau'r Ddraig, sef Bryn Evans.
Mi wnaeth y plant fwynhau dysgu am wahanol dechnegau o chwarae golff a dysgu am enwau ar wahanol ardaloedd o amgylch cwrs golff.

### Diwrnod Helpu'r Ysgol

Ar ddydd Sadwrn, Ebrill 2il daeth rhai o staff, llywodraethwyr, rhieni a chyn-ddisgyblion yr ysgol ynghyd er mwyn trwsio, peintio a garddio o amgylch yr ysgol. Bu pawb yn brysur iawn ac erbyn diwedd y prynhawn roedd yr ardal yn edrych yn drwsiadus dros ben.

### Fferm Cwmwythig

Ar Ddydd Mercher, Mawrth 23ain fe aeth dosbarth 1 ar wibdaith i Fferm Cwmwythig. Roedd hi'n hyfryd cael help Llŷr Evans, disgybl blwyddyn 2, sy'n dipyn o arbenigwr ar ffermio i dywys ni o amgylch Cwmwythig. Gwelsom llawer o anifeiliaid a peiriannau y fferm. Ar ddiwedd yr ymweliad fe gawsom ddiod, cacennau a bisgedi. Diolch yn fawr iawn i Mr a Mrs Evans, Cwmwythig am ganiatau disgyblion yr ysgol i ymweld â'r fferm. Roedd hi'n fore bendigedig!

### Parti Clwb Hwyl

Ar Nos Fercher, Ebrill 6ed cynhaliwyd parti yn y Clwb Hwyl i ddathlu'r Pasg ac i ddathlu diwedd y tymor. Roedd Mrs Ann Davies wedi paratoi bagiau o anrhegion a charden Pasg i'r aelodau i gyd. Diolch i Mrs Ann Davies ac aelodau Capel Pen-llwyn am ofalu ar ôl y Clwb Hwyl yn ystod y tymor a pharatoi'r holl weithgareddau.

### Diwedd Cyfnod

Fe garwn ni ddiolch o galon i bawb a fu mor gefnogol i mi fel Pennaeth Ysgol Pen-llwyn dros y deunaw mlynedd diwethaf. Rydw i wedi bod yn hapus iawn yn eich mysg! Carwn ddymuno'r gorau i bawb yn y Gymuned a phob lwc i'r dyfodol!!
**Christine Charlton**

**Parti Ffarwelio**
**â Mrs Charlton**

**ar ddydd Sadwrn,**
**Mai 7fed**
**Am 2 o'r gloch**
**Yn Neuadd Pen-llwyn,**
**Capel Bangor.**
Cyfraniadau os dymunir i'r ysgol.
Croeso i bawb!



Carys a Llŷr gyda Karen Roberts o wasanaeth y Frigâd Dân.


James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

## TASG Y TINCER

Ydech chi'n mwynhau'r tywydd braf 'ma, a'r dyddiau hir? Dyma un o'm hoff adegau i o'r flwyddyn. Ydech chi wedi bod yn brysur gyda'r eisteddfodau? Siwr o fod. Clywais fod rhai ohonoch chi wedi gwneud yn arbennig o dda yn Eisteddfod Penrhyn-coch yn ddiweddar. Da iawn chi. Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r plant yn mwynhau eu hunain yn y parc y mis diwethaf. Roedd un yn hedfan barcud, un arall ar gefn beic, a chriw yn chwarae pêl-droed. Dyma pwy fu'n brysur yn lliwio:

Dylan Jenkins, Cwm Ywen, Penrhyn-coch; Mari Morgan, Maes Mieri, Llandre; Elin Pierce Williams, Bryncastell, Bow Street; Craig Edwards, 10 Pen-llwyn, Capel Bangor.

Ti, Mari sy'n ennill y tro hwn, ond roedd gwaith bob un ohonoch yn dda iawn wir. Hoffais liwiau dy farcud, Mari, ac roeddet wedi ychwanegu llun haul at yr awyr las.

Mae ein siopau wedi bod yn llawn o wyau Pasg o bob lliw a llun ers misoedd. Rwy'n hoff i'r cwningod siocled, a'r holl bethau eraill blasus sydd i'w cael adeg y Pasg. Rwy wedi colli cownt sawl bynen hot cross rwy wedi ei fwyta dros yr wythnosau ddiwethaf. Beth amdanoch chi?



Mari Morgan



Mackenzie Byrne, y Borth, enillydd Mawrth

Mae yna enw arbennig ar y dydd Sul cyn y Pasg. Wyddoch chi beth yw'r enw hwnnw? Sul y Blodau. Am enw tlws! Dyma'r Sul sy'n cychwyn gŵyl y Pasg. Rydym ni'n dathlu ffaith fod Iesu Grist wedi mynd i ddinas Jeriwsalem ar gefn asyn ar y diwrnod hwnnw. Daeth cannoedd o bobl i'w wylio, gan chwifio canghennau palmwydd i'w groesawu i'r ddinas. Wyddoch chi beth oedden nhw'n floeddio? "Hosanna". Y mis hwn, beth am liwio'r llun o'r Iesu yn cael ei groesawu ar strydoedd Jeriwsalem ar Sul y Blodau?

Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Calan Mai ( 1 Mai) i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc, dymuniadau gorau dros y Pasg, a mwynhewch yr wyau siocled!



Enw

Cyfeiriad

Oed Rhif ffôn

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

Llety
Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig . Teledu . Te a choffi .
Wi Fi am ddim . Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 338 | EBRILL 2011